



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Addysg a Gwella Iechyd  
Cymru (AaGIC)  
Health Education and  
Improvement Wales (HEIW)

# Adroddiad Gwerthuso – Prentisiaethau Gradd Gofal Iechyd

Ymgynghoriad: Medi - Hydref 2023



## Tabl Cynnwys

Rhagair .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Canfyddiadau Allweddol .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Argymhellion .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Cyflwyniad.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Methodoleg a Dulliau.....	8
Adolygiad llenyddiaeth.....	8
Casglu data.....	8
Cyfyngiadau.....	8
Canlyniadau'r Ymgynghoriad fesul Sector.....	10
Nyrsio a Bydwreigiaeth .....	13
Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Perthynol.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Gwyddorau Gofal Iechyd (HCS) .....	24
Fferylliaeth .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Meddygaeth a Deintyddiaeth .....	32
Addysg a Hyfforddiant.....	34
Datblygu'r Gweithlu a Datblygu Sefydliadol .....	39
Sectorau eraill .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Casgliad .....	42
Diolchiadau .....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Talfyriadau.....	<b>Error! Bookmark not defined.</b>
Atodiad 1 .....	45

## Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth am ddigwyddiad ymgynghoriad y Prentisiaethau Gradd, a gynhaliwyd gan AaGIC rhwng 4 Medi a 27 Hydref 2023, i bennu a oes rôl ar gyfer prentisiaethau gradd i'r proffesiynau gofal iechyd wrth hyfforddi gweithwyr proffesiynol iechyd y dyfodol yng Nghymru. Mae hyn yn cefnogi'r cais gweithredu yn rhan o Gynllun Gweithredu ar y Gweithlu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (2023).

Bydd y ffocws a'r deilliannau'n ategu ffocws Llywodraeth Cymru ar sectorau allweddol a fydd yn cefnogi gweithluoedd lleol, ac yn benodol, GIG Cymru fel cyflogwyr ledled Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar nodi'r meysydd sydd heb ddarpariaeth ar hyn o bryd, i gefnogi llwybrau cynnydd, gwella llwybrau dysgu neu ehangu cyfranogiad unigolion ynghylch diffyg cydbwysedd rhwng y rhywiau, amrywiaeth ethnig, hygyrchedd gwledig neu'r rhai o gefndiroedd difreintiedig.

Roedd y cyhoeddiad [Pontio i fyd gwaith: adroddiad](#) yn nodi: *'mae 90% o brentisiaethau lefel uwch nad ydynt yn rhai gradd mewn pynciau sydd heb brentisiaeth gradd cyfwerth, yn bennaf iechyd a gofal cymdeithasol a rheoli. Mae hynny'n golygu nad oes gan y prentisiaid hynny lwybr ar sail gwaith at radd. Mae'n amlwg bod angen aliniad gwell o ran cymwysterau rhwng addysg uwchradd, pellach ac uwch'.*

Mae AaGIC yn falch o allu cyflawni'r argymhellion i'w hystyried ymhellach, a llywio'r disgwyliadau o ran ymestyn modelau amgen i ategu dulliau llwybrau dysgu addysg uwch ac ysbrydoli datblygiad y gweithlu a darpariaeth gwasanaeth.

Enw: Lisa Llewelyn

Swydd: Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Iechyd, AaGIC

Llofnod (ar ran AaGIC):

Dyddiad:

## Canfyddiadau Allweddol

Mae diffyg dealltwriaeth yn parhau o ran cyllid prentisiaethau a modelau cyflawni yng Nghymru, a'r ystod o addysg a hyfforddiant y mae AaGIC yn eu comisiynu ar ran GIG Cymru. Ar hyn o bryd, does gan AaGIC ddim rheolaeth o ran yr Ardoll Prentisiaethau neu gyllid prentisiaeth Llywodraeth Cymru (LIC). Gall dyfodiad y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) arwain at gyfleoedd i AaGIC ddylanwadu ar gyllid fframweithiau prentisiaethau gofal iechyd, a sut mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddefnyddio gan gyflogwyr.

Oherwydd nifer y llwybrau addysg llawn amser a rhan amser i ddod yn Nyrs Gofrestredig, prin iawn oedd y gefnogaeth i brentisiaethau gradd ymhlith yr ymatebion nyrsio a bydwreigiaeth. Fodd bynnag, wrth edrych yn fanylach ar ymatebion cydweithwyr bydwreigiaeth, gan gynnwys yr RCM, byddai archwilio ystod ehangach o lwybrau addysg i fyfyrwyr bydwreigiaeth israddedig, sy'n efelychu'r hyn sydd ar gael ym maes nyrsio, i'w groesawu.

Roedd ymatebion cydweithwyr deintyddol hefyd yn nodi awydd i archwilio cyfleoedd dysgu ar sail gwaith rhan amser i gynyddu'r llwybrau at gofrestru, ond nid oedd cydweithwyr meddygol o'r farn y byddai prentisiaethau gradd yn ychwanegu gwerth at eu llwybr addysg presennol.


Roedd ymatebion sawl proffesiwn yn nodi angen i sicrhau bod y seilwaith priodol ar gael i hyfforddi ac asesu prentisiaid. Ar hyn o bryd, prin iawn yw nifer y bobl sy'n ymgymryd â'r fframweithiau prentisiaeth lefel 2-4 a'r cymwysterau WBL unigol, yn enwedig mewn meysydd mwy arbenigol e.e. Therapi Iaith a Lleferydd. Yn rhannol, mae hyn oherwydd y buddsoddiad amser sydd ei angen gan y gweithlu cofrestredig i gyflawni, asesu a sicrhau ansawdd dysgwyr. Felly, mae angen ystyried y capasiti ychwanegol sydd ei angen gan arbenigwyr pynciau ac AaGIC i gefnogi prentisiaethau gradd.

Nododd Colegau Cymru bod y prentisiaethau gradd sydd wedi'u cymeradwy gan LIC yng Nghymru hyd yma wedi canolbwyntio ar feysydd gwrywaidd eu nawws, ac y byddent yn croesawu cyfle i fynd i'r afael â hyn. Gallai cyflwyno prentisiaethau gofal iechyd, sy'n tueddu i ddenu mwy o ymgeiswyr benywaidd, helpu i sicrhau cydbwysedd yn hyn o beth.

Roedd yr ymatebion hefyd yn dangos y byddai sawl proffesiwn yn croesawu buddsoddiad mewn cyfleoedd cyrsiau byr a DPP. Gallai cyrsiau megis micro-gymwysterau ddarparu cyfleoedd byr â ffocws, fyddai'n rhoi credydau, i ddatblygu sgiliau a gyrfaoedd.

Mae'n debyg hefyd bod y term 'prentisiaeth' yn dod â rhywfaint o stigma, ac amlygwyd bod hyn o bosib yn cyfrannu at ddiffyg ymgysylltiad gyda'r llwybr hwn. Roedd yr adborth yn awgrymu bod angen i unrhyw amcanion marchnata i'r dyfodol wella gweledd prentisiaethau, tra'n hyrwyddo'r manteision i bob grŵp o ddysgwyr.

Roedd llawer o ymatebion gan y sector yn amlygu diffyg dealltwriaeth o'r llwybrau dysgu sy'n bodoli, a'r cyllid sydd ar gael i gefnogi hyn. Fodd bynnag, heblaw'r sector addysg, nododd yr arolwg ar-lein nad oedd darpariaeth addysg presennol yn addas er mwyn bodloni anghenion datblygu'r gweithlu.



## Argymhellion

1. Yn unol â chanfyddiadau'r ymgynghoriad, bydd AaGIC yn nodi ac yn blaenoriaethu'r proffesiynau gofal iechyd a fyddai'n croesawu trafodaeth fanylach ar y potensial ar gyfer prentisiaethau gradd neu lwybrau dysgu ar sail gwaith lefel uwch cyfwerth.
2. Bydd AaGIC yn gweithio gyda'r meysydd sector proffesiynol hyn i greu argymhellion o ran y model cyflawni addysg gorau i gefnogi datblygiadau gweithlu cynaliadwy.
3. Bydd AaGIC yn parhau i ymgysylltu â LIC a CETR i ddatblygu agweddau sy'n cefnogi ac yn ychwanegu gwerth i lwybrau gyrfa cynaliadwy ar gyfer y proffesiynau gofal iechyd.
4. Bydd AaGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru i gynnal ymgyrch marchnata â ffocws i arddangos ystod y rhaglenni gofal iechyd sy'n cael eu comisiynu ar ran GIG Cymru.

## Cyflwyniad

Pwrpas ymgynghoriad prentisiaethau gradd AaGIC 2023 oedd pennu'r awydd cychwynnol yn y sector fel prentisiaethau gradd yn llwybr cyfwerth ategol a/neu ychwanegol at lwybrau dysgu sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Nid bwriad yr ymgynghoriad oedd cynnig unrhyw ddatrysiadau i weithgarwch gweithredol neu fethodoleg gweithredu, byddai hyn yn digwydd yn ystod camau hwyrach unrhyw ddatblygiadau. Y bwriad cychwynnol oedd ymgysylltu a cheisio adborth gan sefydliadau GIG Cymru a'u staff cyflogedig. Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar brentisiaethau gradd, ac nid casglu adborth ar ddulliau amgen o ddatblygu llwybrau dysgu penodol i'r sector ehangach oedd y nod. Fodd bynnag, anogwyd prentisiaethau clinigol a phrentisiaethau nad ydynt yn glinigol. Er hyn, roedd mwyafrif yr ymatebion a ddaeth i law yn canolbwyntio ar ddehongliadau clinigol. Cafodd maes ffocws penodol ei gynnwys o ran disgwyliadau nyrsio er mwyn galluogi adborth gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb uniongyrchol i gam gweithredu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu (NWIP).

Cafwyd llawer mwy o ymatebion na'r disgwyl, ac roedd llawer o ddiddordeb yn yr ymgynghoriad. Cafwyd dros 131 o ymatebion i'r arolwg ar-lein, 20 o ymatebion ysgrifenedig manwl ac 123 o fynychwyr gweithdai a thrafodaethau. Mae AaGIC yn ymwybodol nad yw llawer o gyfranwyr wedi gallu ymateb i'r ymgynghoriad hyd yma. Aeth aelodau o'r tîm WBL ac apiau i gyfarfodydd grŵp proffesiynol sefydledig e.e. Grŵp Gweithlu ac Addysg Proffesiynol ar gyfer y Gwyddorau Gofal Iechyd (PWEG). Mae'r adborth a gafwyd gan gyrff proffesiynol wedi bod yn hynod werthfawr o ran cynrychioli barn y proffesiynau gofal iechyd amrywiol. Lle daeth ymatebion unigol cyfyngedig, yn cynrychioli cyfran fach iawn o staff GIG Cymru, mae'r gyrff proffesiynol hyn wedi galluogi trosolwg ehangach a mwy cynrychioladol o'r aelodau.

Yn gynnar iawn yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad, nodwyd mai cynulleidfa bwriedig yr holiadur oedd darparwyr gofal iechyd a chyflogwyr gweithwyr proffesiynol iechyd. Nid oedd yn cyfleu barn darparwyr addysg a rhanddeiliaid ehangach. Er mwyn gweithredu'r adborth, bu i AaGIC ehangu'r dull cyfathrebu i gynnwys nid yn unig cwestiynau'r arolwg ar-lein a gweithdai rhithiol, ond hefyd dulliau annog ymatebion dros e-bost lle nad oedd dulliau eraill yn caniatáu dehongliad digonol. Roedd hyn yn rhoi cyfle i bob cyfranogwr gyflwyno sylwadau'n berthnasol i'r ystod o sectorau oedd â diddordeb.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys nifer o gwestiynau gweithredol a datrysiadau i ddulliau cyflawni posibl am brentisiaethau gradd. Mae'r sylwadau hyn yn hynod bwysig ond maent y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad cychwynnol hwn. Mae'r holl sylwadau a wnaed ynghylch gweithrediad posibl prentisiaethau gradd wedi'u cadw, ond nid ydynt yn rhan o'r ymgynghoriad hwn na'i argymhellion. Bydd y wybodaeth yn cael ei chadw a'i defnyddio mewn camau datblygu pellach, lle bo'n briodol, ar ôl cytuno ar yr argymhellion sydd wedi'u nodi fan hyn.

Sicraodd AaGIC eu bod yn eglur o ran y pwrpas, gan greu crynodebau gwybodaeth ar sail tystiolaeth a dolenni i wybodaeth berthnasol i ategu ymatebion ar sail gwybodaeth. Cyflwynwyd y wybodaeth ar ffurf nad oedd yn creu unrhyw ddehongliadau â thuedd o ran statws cymharol prentisiaethau gradd yn erbyn unrhyw lwybrau dysgu presennol. Fodd bynnag, roedd angen eglurder o ran pwrpas, nod a bwriad yr ymgynghoriad sawl gwaith, yn enwedig yn y gweithdai. Mae unrhyw bryderon a godwyd wedi'u nodi a'u cynnwys yn adroddiadau'r sector. Bob amser, amlygwyd bod


disgwyliadau dysgu proffesiynol a chyrrff rheoliadol yn hanfodol ar gyfer y llwybrau prentisiaethau gradd yn yr un modd ag unrhyw gymhwyster cyfwerth.

Roedd rhai o'r cwestiynau yn yr arolwg ar-lein yn ddeuol yn fwriadol, er mwyn galluogi'r broses o gasglu ystadegau cyffredinol. Roedd yr arolwg hefyd yn cynnwys blychau sylwadau pellach er mwyn annog atebion cynhwysfawr mewn maes mor gymhleth a chyfoethog.

Cafwyd llawer o atebion yn amlygu diddordeb unigolion a grwpiau'r sector i gymryd rhan mewn gwaith pellach o ran unrhyw ddulliau gweithredu posibl. Ni fydd unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud o ran dyfodol unrhyw brentisiaeth gradd ar sail yr ymgynghoriad hwn yn unig.

Ceir crynodeb gweledol o ymatebion i'r arolwg ar-lein sy'n ategu'r sylwadau yn rhannau o'r adroddiad hwn yn atodiad 1.


Derbyniwyd 91% o'r ymatebion i'r arolwg ar-lein gan bobl sy'n gweithio i GIG Cymru.



12% BIPAB  
 10% BIPBC  
 10% BIPCF  
 10% BIPCTM  
 17% BIPHD  
 4% BIAP  
 2% ICC  
 13% BIPBA  
 2% YGAB  
 1% arall

Roedd y 9% sy'n weddill yn cynrychioli darparwyr addysg, cyrrff proffesiynol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau annibynnol arall.

Mae ystod yr ymatebion a dderbyniwyd gan y meysydd gwaith wedi'u crynhoi fel a ganlyn:



34% AHP  
 20% Nyrsio/Bydwreigiaeth  
 16% Gwyddorau Gofal Iechyd  
 10% Addysg/Dysgu  
 6% Meddygol a Deintyddol  
 4% Fferylliaeth  
 4% Y Gweithlu ac OD  
 1% Corff Proffesiynol  
 1% Cynllunio'r Gweithlu

## Methodoleg a Dulliau

Defnyddiwyd dull cymysg rhwng Medi 2023 a Hydref 2023 i nodi'r awydd posibl am brentisiaethau gradd ledled y sectorau iechyd amrywiol yng Nghymru, a'r effeithiau, costau, buddion neu bryderon posibl i sefydliadau iechyd a allai ddeillio o gyflwyno brentisiaethau gradd mewn llwybrau addysg iechyd.

Mae'r adran hon yn nodi'r dull a ddefnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn.

### Adolygiad llenyddiaeth

Ar adeg ysgrifennu, roedd prentisiaethau gradd yng Nghymru wedi'u cyflwyno mewn dau faes peilot (Peirianeg a Gweithgynhyrchu Uwch a Digidol). Adolygodd Llywodraeth Cymru'r cynlluniau peilot hyn ym mis Chwefror 2023. Roedd y ddogfen adolygu hon yn rhan hanfodol o'r wybodaeth gefndirol a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Casglwyd tystiolaeth o Loegr lle cyflwynwyd prentisiaethau gradd yn 2017.

Rhyddhawyd dogfen gefndirol i gefnogi a gwella dealltwriaeth cyfranogwyr o'r ymgynghoriad. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad llenyddiaeth a gyhoeddwyd drwy ffynonellau amrywiol: Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Universities UK, ac adolygiadau maes clinigol penodol, lle bo hynny ar gael. Defnyddiwyd yr adolygiad llenyddiaeth i ychwanegu manylion i 'fap' gwybodaeth yr ymgynghoriad, a oedd ar gael ar [wefan Addysg a Gwella Iechyd Cymru \(AaGIC\)](#), fel rhan hanfodol o'r ymgynghoriad.

### Casglu data

Casglwyd ymatebion o:

- Gyfweiliadau
- Arolwg ar-lein yr ymgynghoriad
- Ymatebion ysgrifenedig gan gyrff proffesiynol allweddol, partneriaid addysg ac unigolion
- Gweithdai'r ymgynghoriad ar-lein - croeso i bawb
- Trafodaethau wyneb yn wyneb ac ar-lein gyda chyrff proffesiynol a rhanddeiliaid gofal iechyd ehangach

Pwrpas y cyfathrebu ar-lein ac uniongyrchol oedd ceisio mewnbwn ar bum maes allweddol ynghylch a oedd cefnogaeth i brentisiaethau gradd yng Nghymru mewn egwyddor:

- Deall ystod y ddarpariaeth addysg bresennol
- Deall goblygiadau arian/cyllid
- Deall disgwyliadau cyflogaeth
- Deall y manteision a'r risgiau
- Deall yr effaith gyffredinol

Er mai ffocws yr ymgynghoriad oedd cyflogwyr a staff gofal iechyd yng Nghymru, roedd llawer o randdeiliaid perthnasol yn cydnabod pwysigrwydd yr ymgynghoriad. Gwnaethant ymgysylltu drwy ddulliau amrywiol.

### Cyfyngiadau

Er bod yr ymgynghoriad wedi'i hysbysebu'n helaeth, ac er iddo fod ar gael ar sawl ffurf dros gyfnod o saith wythnos, cydnabyddir bod dim llawer o gynrychiolaeth a/neu ymateb i'r ymgynghoriad ym



mhob sector, ac yn hynny o beth, bydd angen ystyried unrhyw argymhellion yn yr adroddiad yn ofalus.

Roedd 89% o ymatebwyr yr arolwg ar-lein yn gweithio yn GIG Cymru. Roedd y bobl a ddaeth i'r digwyddiadau agored ar-lein yn dod o ystod ehangach o sefydliadau gan gynnwys darparwyr addysgol (9%), cyrff proffesiynol (2%) a chynrychiolwyr o'r llywodraeth ac awdurdodau lleol (2%). Roedd gweddill y bobl yn y digwyddiadau ar-lein hyn naill ai yn staff y GIG (76%) neu yn dod o grwpiau eraill (11%).

## Canlyniadau'r Ymgynghoriad yn ôl Sector

Er bod ymatebion wedi'u casglu dan gategoriâu penodol i sector, cyflwynwyd rhai sylwadau cyffredinol hefyd.






Cydnabuwyd sawl gwaith na ddylid defnyddio prentisiaethau i wneud yn iawn am swyddi gwag presennol staff cofrestrwyr llawn amser. Dylid ystyried prentisiaeth gradd yn fuddsoddiad tymor hirach am dair neu bedair blynedd. Ni fydd gwir fantais yr unigolion hynny'n mynd ar y llwybr dysgu'n dod i'r amlwg am flynyddoedd. Ni ddylid ystyried y buddsoddiadau hyn fel rhywbeth i gau bylchau, ond yn hytrach, dull a gynlluniwyd er mwyn sicrhau bod y gweithlu i'r dyfodol yn bodloni gofynion gwasanaeth GIG Cymru. Does dim dull 'addas i bawb' o ran prentisiaethau gradd. Dylid ymgorffori'r opsiwn llwybr dysgu hwn lle mae'r sector(au) yn gallu cefnogi'n briodol a chyflawni disgwyliadau addysg y dysgwyr a'r sefydliad sy'n cyflogi. Dylid defnyddio prentisiaethau gradd yn unol â chyllid, cymorth rheoliadol ac addysgol. Dylid eu hymgorffori os nad yw opsiynau eraill ar gael, a ble bydd y dull hwn yn ychwanegu budd amlwg i ddarpariaeth bresennol.


Yn ystod yr ymgynghoriad, amlygwyd yr angen i feddwl yn wahanol am dyfu ein gweithlu. Mae angen prentisiaethau neu gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith cyfwerth er mwyn i weithwyr cymorth presennol ddod yn gofrestreion. Er bod niferoedd comisiynu dysgwyr ar i fyny, nid yw sefydliadau'n gweld yr allbwn sydd ei angen gan fod staff newydd gymhwyso yn aml eisiau gweithio'n hyblyg neu ar sail rhan amser.

Cytunodd pob sector y byddai prentisiaethau gradd yn help o ran cadw staff, yn ogystal â'r llwybrau addysg presennol yng Nghymru. Ro'n nhw hefyd yn cytuno y byddai prentisiaethau gradd yn help o ran amrywiaeth staff, uwchsgilio neu bontio swyddi staff presennol, ac yn adnodd defnyddiol i dargedu bylchau sgiliau. Nid oedd y sector meddyaeth a deintyddiaeth wedi'u darbwyllo'n llwyr. Fodd bynnag, roedd ymateb cymysg tu hwnt o ran dealltwriaeth am yr ystod addysg bresennol lefel 4 ac uwch yng Nghymru.

Rhestrwyd llawer o fanteision i brentisiaethau gradd drwy gydol yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys ehangu cyfleoedd i ddysgwyr sydd heb gyflawni mewn addysg draddodiadol, neu sy'n methu fforddio hyfforddi drwy fynd ar lwybrau traddodiadol. Credir bod prentisiaethau yn cynnig mwy o gyfleoedd dysgu rhyng-broffesiynol, neu gael profiad o weithio mewn lleoliadau clinigol, datblygu sgiliau gofal cleifion a chlinigol hanfodol, gwella profiad addysgol drwy fentora strwythuredig yn y gweithle, galluogi asesu parhaus yn erbyn cymwyseddau gofynnol a galluogi cost isel, neu ddim cost o gwbl, i'r prentis.

Yn yr is-benodau nesaf yn yr adroddiad, mae'r data ansoddol a dangosol yn benodol i'r meysydd, ac mae'n cynnwys detholiadau o'r ymatebion er mwyn cael adborth gan y sector sy'n unol â'r cyd-destun cyffredinol.





## Nyrsio a Bydwreigiaeth

Derbyniwyd 27 o ymatebion i'r arolwg ar-lein o'r sector nyrsio/bydwreigiaeth gyda 100% o'r rhain yn gweithio yn sefydliadau neu wasanaethau GIG Cymru. Derbyniwyd 8 ymateb manwl iawn, gyda chynrychiolwyr nyrsio/bydwreigiaeth yn mynd i 8 gweithdy ar-lein.

- Roedd 74% o'r ymatebwyr yn deall ystod bresennol yr addysg oedd ar gael ar lefel 4 ac uwch yng Nghymru.
- Roedd 63% yn deall y modelau cyflawni presennol ar gyfer addysg nyrsio/bydwreigiaeth llawn amser.
- Roedd 59% yn deall y modelau cyflawni presennol ar gyfer darpariaeth nyrsio/bydwreigiaeth rhan amser.
- Dim ond 11% o'r ymatebwyr oedd yn deall y gwahaniaeth rhwng prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal â'r llwybrau addysg presennol yng Nghymru, roedd 96% o'r ymatebwyr o'r farn y gallai prentisiaethau gradd fod o fudd o ran cadw staff, amrywiaeth staff a bod yn adnodd defnyddiol i uwchsgilio neu newid swyddi gweithwyr presennol ym maes nyrsio/bydwreigiaeth. Daeth sylwadau i law yn nodi y byddai prentisiaethau gradd yn galluogi'r ddarpariaeth o lif cyson o weithwyr llawn amser a rhan amser, ac y byddai llwybrau prentisiaeth yn fuddiol o ran ehangu mynediad i ddysgwyr cefn gwlad. Roedd 93% o'r farn y byddai prentisiaethau gradd yn adnodd defnyddiol wrth fynd i'r afael â bylchau sgiliau. Nodwyd y gallai hyfforddi staff i gymryd rhan mewn addysg lefel gradd ar sail rhan amser fod yn ddull arall o ddatblygu'r gweithlu, ac y gallai fod o fudd o ran recriwtio a chadw staff.

Byddai 96% o'r ymatebwyr yn ystyried prentisiaethau gradd fel rhywbeth cyfwerth i radd bresennol, ac yn awyddus i weld prentisiaethau gradd ar gael ledled GIG Cymru. Cytunodd 93% y dylid disgwyl darpariaeth gydweithredol o'r rhaglenni prentisiaeth gradd, ac y byddai cryfhau'r perthnasoedd gwaith rhwng prifysgolion a chyflogwyr i'w groesawu. Mae'r ymatebion yn awgrymu bod angen rhagor o lwybrau strwythuredig o lefel 3 ymlaen, gan fod y darpariaethau'n bodoli eisoes ond ar ffurf tameidiog. Pwysleisiwyd argaeledd cyllid er mwyn cyflawni sgiliau ac asesu yn yr amgylchedd Dysgu ar sail Gwaith fel maes sydd angen ei ystyried yn fanwl iawn.

Nododd llawer o'r ymatebwyr bod angen newid y ddarpariaeth addysg bresennol, nid o anghenraid o blaid prentisiaethau gradd, ond datblygiadau dysgu ar sail gwaith a fyddai'n cynnwys defnyddio'r sefydliadau cyflogi i ddatblygu sgiliau. Hefyd, mae angen dull sy'n cydnabod dysgu blaenorol i alluogi'r broses o bontio o'r system yn Lloegr. Y disgwyliad fyddai system gynhwysol sy'n cydnabod profiad ochr yn ochr â'r byd academaidd. Roedd 96% o'r ymatebwyr yn rhagweld y byddai defnyddio prentisiaeth gradd nyrsio yn GIG Cymru yn fuddiol, gyda sylwadau'n pwysleisio llwybrau galwedigaethol o ran cofrestru sy'n cael eu hwyluso drwy'r llwybrau hyblyg a rhan amser ar hyn o bryd. Roedd yr adborth ar-lein yn cynnwys peth adborth gan y corff proffesiynol, RCN Wales, a'u dehongliad nhw fel y proffesiwn nyrsio. Mae'r ymateb wedi'i ddefnyddio i gynrychioli'r ystod ehangach o aelodau yn y canfyddiadau allweddol. Er bod manteision i brentisiaethau gradd, roedd rhai ymatebwyr yn holi a yw'r manteision hyn wedi'u gorbwyso gan y baich ychwanegol ar staff, yr angen am swyddi newydd neu gost ychwanegol. Nodwyd hefyd y cyfleoedd sydd eisoes ar gael yng Nghymru, a'r bwrsariaeth nyrsio nad yw ar gael yn Lloegr. Nid yw fframweithiau prentisiaeth yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan nad ydynt ar gael yng Nghymru. Rhestrwyd y llwybrau rhan amser fel

y llwybrau Dysgu ar sail Gwaith cyfwerth, ac mae'r rhain yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus pan fyddant ar gael.

Credir nad oedd y ddarpariaeth addysgol yn bodloni anghenion y gweithlu presennol. Roedd yr adborth yn hyn o beth yn cynnwys sawl categori megis cyllid a fforddiadwyedd; hyblygrwydd y ddarpariaeth ddysgu drwy lwybrau rhan amser; cyfanswm y cynnwys dysgu 'wrth ymyl gwely' a chapasiti myfyrwyr yn yr amgylchedd gwaith. Nododd 52% o'r ymatebwyr nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn addas i fodloni gofynion datblygu'r gweithlu, gyda 56% yn nodi y byddai'r sefydliad yn gallu cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen i ryddhau amser er mwyn cyflawni prentisiaeth gradd, ond y byddai hyn yn dibynnu ar y gwaith neu'r maes gwasanaeth. Mae hyn ar gael drwy'r llwybr hyblyg at gofrestru ym maes nyrsio.

Roedd yr ymatebion yn amlygu bod dulliau dysgu ar sail gwaith eisoes yn bodoli ar lefel 4 ac yn y llwybrau hyblyg at nyrsio, ond mae angen rhagor o strwythur. Nododd y Coleg Brenhinol Nyrsio (RCN) bod llwybrau hyblyg at nyrsio eisoes ar waith, a bod mwy o amrywiaeth yn debygol o ychwanegu cymhlethdod a dryswch i oruchwylwyr, aseswyr, myfyrwyr y dyfodol, staff recriwtio a'r cyhoedd, heb unrhyw fudd ychwanegol go iawn o ran llwybrau at gofrestru. Ychwanegodd RCN bod angen defnyddio llwybrau hyblyg a chanolbwyntio arnynt i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyllido a'u defnyddio'n briodol. Gallai'r cymhlethdod ychwanegol o gyflwyno'r dull prentisiaethau gradd ychwanegu straen pellach at y gweithlu. Mae hyn yn llwyr i'r gwrthwyneb i sylwadau'r Coleg Brenhinol Bydwreigiaeth (RCM) sy'n amlygu'r diffyg llwybrau presennol i ddysgu heblaw am ddarpariaeth llawn amser.

Ychwanegodd RCN na fyddai cyflwyno prentisiaethau gradd nyrsio yn GIG Cymru yn ychwanegu mantais pellach y tu hwnt i fanteision y llwybrau llawn amser a rhan amser at nyrsio, gan amlygu ei bod hi'n bwysig adolygu'r llwybrau presennol i gefnogi dysgwyr. Dylai'r gweithlu fod yn amrywiol eisoes, gyda mesurau ar waith i sicrhau hyn, a chynnig cyfleoedd cyfartal i'r gweithlu nyrsio. Mae RCN o'r farn na fyddai prentisiaethau gradd yn ei gwneud hi'n haws i hwyluso'r gwaith o uwchsgilio a phontio gweithwyr presennol, nac yn mynd i'r afael â bylchau sgiliau.

Gall prentisiaethau gradd fod yn ddull o gadw'r gweithlu sydd heb ei gofrestru ar hyn o bryd yn y maes, ehangu llwybrau gyrfa staff presennol, ehangu cyfranogiad, a chynyddu amrywiaeth y gweithlu drwy ragor o ddulliau cynhwysol wrth symud ymlaen i fod yn Nyrs Cofrestredig neu Fydwraig Cofrestredig. Roedd yr ymatebion ar-lein yn cefnogi mynediad prentisiaeth ar lefel gweithiwr cymorth, gan alluogi llwybrau datblygu i fod yn ymarferwyr cymwys.

Ar y cyfan, mae RCM yn croesawu'r cynnig ar gyfer cynlluniau prentisiaethau gradd i gadw'r sgiliau a'r profiad sy'n bodoli yn y gweithlu presennol a chreu'r genhedlaeth nesaf o fydwragedd, Mae nyrsio'n ffodus i fod â rhaglenni gradd israddedig rhan amser eisoes. Mae'r rhain yn galluogi Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd (HCSW) i symud ymlaen i fod wedi cofrestru drwy lwybr datblygu sy'n dechrau gyda phrentisiaethau Cymorth Gofal Iechyd Clinigol lefel 2 a 3 cyn symud i'r rhaglenni Cert HE (Addysg Uwch) ac yna rhaglenni rhan amser cyn-cofrestru. Caiff anghenion ehangu mynediad eu bodloni fel hyn, a gall prentisiaid HCSW hefyd symud ymlaen drwy lwybr WBL rhan amser. Mae hyn yn gweithio'n dda ac yn cael ei werthfawrogi gan y gweithlu HCSE nyrsio ac arweinwyr nyrsio. Nid yw'r cyfle hwn ar gael i gefnogi datblygiad Cynorthwyyr Gofal Mamolaeth a HCSWau

Mamolaeth. Roedd yr ymatebwyr yn amlygu'r galw drwy geisiadau mewnol am argaeledd llwybrau addysg WBL, yn enwedig er mwyn galluogi cynnydd a chadw staff. Yn Lloegr, ni welwyd unrhyw wahaniaeth rhwng cymhwysedd academiaidd prentisiaid a myfyrwyr sy'n talu ffioedd.

Nid yw nifer y myfyrwyr bydwreigiaeth sy'n dechrau astudio bob blwyddyn yn galluogi sefydliadau i fodloni eu hanghenion o ran gweithlu. Byddai angen i unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion hyfforddeion, goruchwylwyr a bydwagedd cofrestredig i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) er mwyn hyfforddi bydwagedd yn y dyfodol.

Mae llawer o ymgeiswyr posibl sy'n methu ag ymrwymo'n ariannol i ddod yn fyfyrwr addysg uwch drwy ddarpariaeth hyfforddiant mamolaeth llawn amser, fel ag y mae ar hyn o bryd. Bydd y cyfuniad o sgiliau yn deillio o brentisiaethau gwasanaethau bydwreigiaeth yng Nghymru yn galluogi'r gwasanaethau mamolaeth i dyfu'r gweithlu, yn enwedig gan fod profiad clinigol blaenorol yn cael ei ystyried yn hanfodol. Mae'r RCM wedi galw am ffocws newydd ar y gweithlu. Gallai llwybr prentisiaeth at fydwreigiaeth roi hwb posibl i staffio, a darparu adnoddau yn addas ar gyfer cymhlethdodau cynyddol y gwasanaeth. Amlygodd [adolygiad diweddar o brentisiaethau gradd bydwreigiaeth](#) yn GIG Lloegr nad oes cynnydd sylweddol yn nifer y staff yn gyffredinol, er gwaethaf cynnydd mewn niferoedd myfyrwyr. Mae hyn gan fod bydwagedd newydd yn cymryd lle bydwagedd sy'n gadael. Yn Lloegr, mae'r prentisiaeth bydwreigiaeth yn cynnig cyfleoedd i symud ymlaen i'r gweithlu cymorth bydwreigiaeth. Mae'r llwybr prentisiaeth hwn wedi helpu i sicrhau bod nifer y bydwagedd a gyflogir gan GIG Lloegr wedi cynyddu, yn sgil cyfraddau cadw staff isel tu hwnt, weithiau sero, a phroses bontio rhwydd i waith ar ôl cymhwyso. Mae'r prentisiaid hefyd yn ymrwymo i barhau i weithio i'w sefydliad lletyol. Mae hyn hefyd wedi arwain at weithlu sy'n fwy cynrychioladol o'r gymuned leol. Mae llwybr uniongyrchol at y gweithwyr talentog yn y gweithlu cymorth mamolaeth, gan gynnig cyfleoedd datblygu i'r rhai na fyddai astudio gradd yn opsiwn fel arall. Dylid nodi bod mecanweithiau cyllid ar gyfer graddau mamolaeth llawn amser yng Nghymru yn wahanol iawn i Lloegr, gyda chyllidebau hyfforddiant AaGIC yn talu ffioedd dysgwyr.

Os oes modd ystyried ymhellach, mae'r RCM yn cydnabod goblygiadau ariannol y cynllun. Hoffent gael sicrwydd o ystyried y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol ynghlwm wrth gynnal y prentisiaeth gradd, megis ffioedd cyrsiau, heb arwain at anfanteision ariannol i aelodau staff presennol a chostau ôl-lenwi pan fydd y prentisiaid yn cymryd rhan yn y rhaglen.

Roedd llawer o ymatebion yn amlygu'r diffyg gwybodaeth ynghylch cwmpas y dysgu sydd ar gael ar hyn o bryd o fewn fframweithiau prentisiaeth iechyd yng Nghymru i weithwyr cymorth. Mae'r ansicrwydd o ran sut i alinio cyllidebau i gefnogi prentisiaethau nyrsio ochr yn ochr â'r gweithlu ehangach wedi'i nodi fel ffactor sy'n cyfrannu at y nifer fechan sy'n manteisio ar fframweithiau prentisiaeth lefel 2-4. Dim ond 19% o ymatebwyr nyrsio a bydwreigiaeth oedd yn gallu cadarnhau defnydd presennol o brentisiaethau lefel 3 fel dull hyfforddiant cynnydd i staff, gyda mamolaeth a phediatreg, iechyd a gofal cymdeithasol a llwybrau cynnydd nyrsio i ddyysgu lefel 4 yn cael eu defnyddio. Roedd y sylwadau'n adlewyrchu'r defnydd cynyddol o fframweithiau prentisiaeth nad ydynt yn glinigol fel dull datblygu llwyddiannus ar lefel 2 a 3, a allai fod o fudd. Mae angen cydnabod bod gan sefydliadau brofiad helaeth o nyrsio o ran cefnogi HCswau drwy'r llwybrau datblygu. Gellir rhannu dysgu ar draws nyrsio a bydwreigiaeth. O ran cyflwyno rhaglenni prentisiaeth mewn nyrsio a

bydwreigiaeth, nododd un Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) y byddai angen buddsoddiad parhaus i staffio'r Tîm Addysg HCSW gan ddefnyddio cyllid addysg HSCW AaGIC a chyllid Hwylusydd Addysg Ymarfer uwch.

Gall rhyddhau o leoliad ac absenoldebau astudio achosi problemau i'r cyflogwr gan ei bod hi'n anodd iawn sicrhau staff cyflenwi. Mae'r sefyllfa bresennol yn y gweithlu'n awgrymu y byddai angen dysgwyr posibl ar y wardiau. Yn ei dro, mae hyn yn golygu y gall dysgwyr fethu rhan addysg y rhaglen, sydd yr un mor bwysig ag ymarfer. Cadarnhaodd 44% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliadau yn meddu ar ddulliau i drefnu staff cyflenwi i gymryd dyletswyddau'r staff ynghlwm wrth addysg ac asesu'r prentisiaethau gradd, ond nid oedd 41% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o hyn, neu roeddent eisoes yn cefnogi hyn. Rhaid cydnabod a mynd i'r afael â'r risg hon i sicrhau bod dim effaith ar y dysgu, a bod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i'r cleifion. Mae'r gweithlu nyrsio eisoes yn ei chael hi'n anodd a gall rhyddhau staff i fynd ar raglenni ychwanegu at y straen. Er mwyn cefnogi unrhyw brentisiaethau nyrsio, rhaid creu swyddi newydd. Dylai'r rolau ychwanegol gynnwys rolau arweinyddiaeth yn ogystal â rolau asesu. Mae'r ymatebion yn nodi y byddai modd trefnu staff cyflenwi lle bo staff ar gael drwy'r banc staff gyda'r sgiliau a chymwyseddau angenrheidiol.

Awgrymodd 81% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliad yn fodlon ac yn gallu hyfforddi staff i ymgymryd â rolau addysg ac asesu ychwanegol, ond o ran nyrsio a bydwreigiaeth, nodwyd bod dim angen hyn. Mae Safonau Goruchwylio ac Asesu Myfyrwyr y NMC yn glir. Rhaid i fyfyrwyr nyrsio a bydwreigiaeth gael cymorth model Asesydd Ymarfer a Goruchwylydd Ymarfer, a byddai hyn yr un peth ar gyfer prentis. Dim ond 63% oedd yn gallu cadarnhau capasiti sefydliadol i ymgorffori'r amser a fyddai angen ar staff i ymgymryd â'r disgwyliadau addysg ac asesu ychwanegol ynghlwm wrth gefnogi prentis gradd. Doedd 52% ddim yn ymwybodol o swm yr amser ychwanegol fyddai ei angen ar staff i allu cefnogi prentis gradd yn llawn, a nododd 74% y byddent yn gallu bodloni gofynion lles parhaus pob aelod staff. Er mwyn creu llwybr prentisiaeth at nyrsio, rhaid sicrhau bod strwythur cymorth ar waith. Yn benodol, mae staff eisoes dan bwysau yn cefnogi myfyrwyr nyrsio presennol mewn lleoliadau. Cydnabuwyd y byddai'r amser ychwanegol sydd ei angen ar gyfer astudio yn golygu bod angen canolbwytio ar sicrhau cymhelliant y gweithiwr, sicrhau ei fod ar y trywydd cywir a'i fod yn ymgysylltu.

Mae'n bosibl y bydd effaith prentisiaethau gradd nyrsio yn cael effaith wahanol ar gyfraddau cadw staff. Er enghraifft, o ran lleoliadau, mae'n bosibl y bydd staff yn teimlo pwysau hyfforddi ychwanegol, gan ychwanegu mwy o straen ar weithlu sydd eisoes ar ei liniau. Mae gan hyn y potensial i gynyddu'r risg o flinder eithafol ac yn ei dro, cynyddu trosiant staff. Mae'r RCN yn croesawu rhagor o wybodaeth o ran i ble fyddai dysgwyr prentisiaethau'n mynd. Mynegwyd pryderon o ran y ddarpariaeth lleoliadau. I fynd i'r afael â'r effaith hon yn y tymor byr, mae darpariaeth cyllid ac adnoddau priodol yn hanfodol er mwyn lleddfu risgiau. Mae'r RCN yn cydnabod y manteision pan fo'r risgiau posibl wedi'u lliniaru. Er enghraifft, gall gynyddu cyfraddau cadw staff yn y tymor hirach, gan sicrhau mwy o fynediad i oruchwyliaeth ac ymarfer clinigol. Er hyn, gofynnwyd cwestiwn ar sut fyddai'r effaith ar gyfraddau cadw staff yn cael ei mesur?

Lle bo'r ddarpariaeth dysgu presennol yn cael ei deall a'i defnyddio, nodwyd bod angen dull dysgu a chynnydd â mwy o strwythur. Byddai wythnos 16 awr yn annigonol. Awgrymwyd y byddai angen i'r prentis weithio o leiaf 23 awr yr wythnos, yn unol â rhaglenni hyblyg presennol.



Roedd 81% o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod angen i brentisiaid gradd a phrentisiaid fel arall gael eu cyflogi gyda'r manteision llawn am o leiaf 16 awr yr wythnos. Byddai 100% o'r ymatebwyr yn disgwyl i brentisiaeth radd nyrsio gymryd o leiaf yr un hyd i'w chwblhau â graddau sydd eisoes yn bodoli. Cafodd hyn ei resymoli yn unol â chanllawiau NMC, lle mae'n rhaid i'r holl raglenni nyrsio cyn-cofrestru fodloni cyfwerth ag isafswm hyd tair blynedd academiaidd ar gyfer rhaglenni llawn amser, sy'n cynnwys isafswm o 4,600 o oriau (2023). Rhaid cydymffurfio â hyn mewn unrhyw brentisiaeth gradd nyrsio. Byddai'r disgwyliad iddo gymryd yn hirach na rhaglen cyn-cofrestru rhan amser yn afrealistig.


Roedd 56% o'r ymatebwyr yn gallu cadarnhau y byddai eu sefydliadau'n gallu cynnig cyflogaeth cyn-cofrestru mewn swyddi fyddai'n galluogi cyflawniad y prentisiaethau gradd, gyda llawer yn cefnogi hyn fel opsiwn amgen i ddatrys y broblem o gyflenwad y gweithlu. Byddai dull model hyblyg yn fanteisiol wrth benodi prentisiaid HCSW a allai symud ymlaen i brentisiaethau gradd wrth weithio ar sail rhan amser. Byddai hyn yn golygu y gallent ymgymryd â chyflogaeth ystyrllon am ran o'r wythnos, heb fod angen goruchwyliaeth ychwanegol ar gyfer yr elfen hon ar y swydd (yn dilyn hyfforddiant a bodloni safonau cymhwysedd). Codwyd maes arall i'w ystyried o ran dulliau prentisiaethau treigl, a'r potensial i ddyrannu'r grwpiau mawr o fyfyrwyr sy'n cymhwyso ar unwaith. Mae creu nifer fawr o staff newydd gymhwyso sydd angen cefnogaeth, ochr yn ochr â nifer gynyddol o fyfyrwyr, yn achosi gwrthdaro i staff profiadol o ran rhedeg y gwasanaethau a chefnogi datblygiad.

Roedd llawer o ymatebion yn nodi bod penodi prentis yn ddrud. Mae'r cyllid o fewn GIG Cymru eisoes yn brin i dalu'r costau sydd ynghlwm wrth hyn. Byddai sawl ymatebwr yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch y ffordd y caiff y swyddi hyn eu hariannu. Roedd 41% o'r ymatebwyr yn ymwybodol y gallai cyflwyno prentisiaethau gradd arwain at gostau. Roedd 48% yn ymwybodol o gostau ôl-lenwi swyddi, a 44% yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth hyfforddi staff i gefnogi cyflawniad ac asesiad, ochr yn ochr â chostau rhyddhau amser staff ar gyfer mentora, asesu ac addysgu. Mae 96% yn cefnogi model prentisiaethau gradd a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad ychwanegol rhan amser gan sefydliadau cyflogi. Fodd bynnag, nodwyd bod hyn yn bosibl lle bo'r unigolion y tu allan i'r sefydliad a swyddi gwag y cytunwyd arnynt. Dim ond 56% oedd yn cefnogi model prentisiaethau gradd a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad rhannol gan y dysgwyr. Nid oedd 67% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth gyflogi prentis, ac nid oedd 52% yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth ryddhau lleoliadau ac absenoldebau astudio. Gofynnwyd cwestiwn pam y byddai hyn yn apelio at ddysgwyr pan fo llwybrau presennol at nyrsio sy'n cynnig cymorth ariannol.

Nodwyd y gellid ystyried prentisiaethau gradd eraill yn y sector nyrsio, megis 'Gradd Meistr' mewn nyrsio a chyfleoedd datblygu lefel uwch i reolwyr wardiau bydweigiaeth, uwch nyrsys/bydwreagedd a phenaethiaid nyrsio/bydwreigiaeth. Nodwyd bod angen rhaglen addysg a sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth glinigol lefel uchel i gefnogi cynnydd gyrfael ym mhob disgyblaeth. Byddai hyfforddiant pwrpasol Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) Dysgu ar sail Gwaith hefyd i'w groesawu. Mae'n ymddangos bod llawer yn mynd ar yr hyfforddiant, ond does dim llawer o leodedd ar gael i dimau cymunedol.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn nodi yr hoffent weld cyfle i'r gweithlu presennol ddatblygu sgiliau a rolau gyda hyfforddiant/prentisiaeth dysgu ar sail gwaith yn ymgorffori cysiau ymarferol, lle mae'r

theori'n ategu'r ymarfer. Mae angen codi ymwybyddiaeth ac annog cyfleoedd datblygu. Daeth sylwadau penodol i law ynghylch yr angen am fwy o leodd pediatrig a mynediad uniongyrchol ar gyfer ymweliadau iechyd megis bydwreigiaeth. Nid yw pob aelod staff yn ymwybodol o'r hyfforddiant a'r llwybrau dysgu sydd ar gael. Awgrymodd y sector nyrsio y gallai'r prentisiaethau gradd fod yn fwy addas ar gyfer gweithluoedd llai fel ODP, bydwreigiaeth neu radiograffeg.



Canran fach o sylwadau'r proffesiwn nyrsio ddaeth i law drwy'r adborth ar-lein, ac felly mae ymateb y corff proffesiynol, RCN Wales, wedi'i ddefnyddio i gynrychioli'r ystod ehangach o aelodau yn y canfyddiadau allweddol.

Roedd ymatebion unigol y gweithlu nyrsio'n amlygu'r angen i godi ymwybyddiaeth o ystod y ddarpariaeth dysgu presennol, ar lefel 4 ac uwch, cyfwerth â llwybrau prentisiaeth rhan amser wedi'u hariannu. Roedd RCN, fel corff proffesiynol cynrychioladol, yn awyddus i sicrhau bod yr ystod bresennol o ddarpariaeth wedi'i hariannu yn cael ei hymgorffori a'i sefydlu'n briodol, cyn cyflwyno llwybr cofrestru ychwanegol.

## Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Perthynol

Derbyniwyd 45 ymateb AHP drwy'r arolwg ar-lein, ac roedd 89% o'r rheiny'n gweithio i wasanaeth neu sefydliad GIG Cymru, ac 11 yn gweithio mewn sectorau eraill. Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT), Coleg Brenhinol Podiatreg (RCPOD), Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT), Cymdeithas Dieteteg Prydain (BDA) yn ogystal â chyfraniadau ar lafar a wnaed yn ystod yr 8 gweithdy ar-lein. Trafodwyd ystod eang o feysydd yn yr ymatebion megis therapi galwedigaethol, therapi strôc, dieteteg, ffisiotherapi, therapi celfyddydau, therapi iaith a lleferydd, radioleg a pharafeddygaeth.

- Roedd 82% o'r ymatebwyr yn deall yr ystod bresennol o addysg oedd ar gael ar lefel 4 ac uwch yng Nghymru
- Roedd 67% yn deall modelau cyflawni presennol ar gyfer addysg AHP llawn amser
- Roedd 56% yn deall y modelau cyflawni presennol ar gyfer darpariaeth rhan amser.
- Roedd 20% o'r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal â'r llwybrau addysg presennol yng Nghymru, roedd 89% yn gallu gweld sut byddai prentisiaethau gradd yn fuddiol o ran cyfraddau cadw staff, ac yn adnodd defnyddiol i uwchsgilio neu newid swyddi gweithwyr presennol, gydag 87% yn credu y byddent yn fuddiol i amrywiaeth staff yn AHP. Mae 87% o'r farn y byddai prentisiaethau gradd yn adnodd defnyddiol i daclo bylchau sgiliau. Mae byrddau iechyd gwledig a rhai mewn ardaloedd difreintiedig yn economaidd wedi nodi y byddai opsiwn sydd ddim yn golygu gorfod cymudo i leoliad addysg yng Nghymru neu golli incwm yn caniatáu cynnydd a mynediad ar gyfer dull 'datblygu o'r tu fewn'. Roedd ymatebion gan RCPOD, RCOT, RCSLT a BDA yn cefnogi cyflwyno prentisiaethau gradd, gan gredu y byddent yn creu cyfle i gadw a datblygu gweithwyr presennol, gan arwain at gyfraddau cadw staff uwch, amrywiaeth a chydarddoldeb yn y gweithle. Roedd llawer o ymatebwyr ledled y gweithlu AHP o'r farn y byddai prentisiaethau gradd yn cynnig datrysiad i dwf recriwtio i sicrhau bod modd bodloni gofynion gwasanaeth i'r dyfodol. Mae RCPOD yn cydnabod bod dros 55% o'r gweithlu trin traed dros 50 oed, ac yn cefnogi prentisiaethau gradd fel piblinell hyfiw i staffio yn y dyfodol, ac i sicrhau cynaliadwyedd y proffesiwn. Roedd ymgysylltiad yn rhan o'u prosiect Diwygio'r Gweithlu hefyd yn nodi bod gan aelodau Cymreig ddiddordeb mewn prentisiaethau fel llwybr at gymhwyso, a rhwystredigaeth nad oedd hyn ar gael eisoes fel yn Lloegr.

Roedd RCOT yn cydnabod pan cafodd prentisiaethau gradd OT eu cyflwyno yn Lloegr yn wreiddiol, cawsant eu defnyddio yn bennaf i uwchsgilio staff cymorth presennol. Fodd bynnag, rydym wedi gweld newid yn y duedd hon, a bellach maen nhw'n gweld niferoedd cynyddol o brentisiaid OT sy'n newydd i'r gweithlu. Mae RCSLT yn cydnabod bod 60% o'u hisraddedigion yn dechrau eu cwrs gradd dros 21 oed, a bod SLT yn broffesiwn i bobl sy'n dechrau'n hwyrach mewn bywyd. Byddai llwybrau prentisiaethau gradd o bosib yn galluogi rhagor o lwybrau hyblyg at ddysgu, yn ehangu cyfranogiad a chynyddu amrywiaeth. Mae llawer o'r ymatebwyr ar-lein yn credu y byddai mynediad i brentisiaeth gradd/llwybr Dysgu ar sail Gwaith rhan amser i gymhwyster yn ehangu mynediad ac yn helpu i gynyddu recriwtio. Roedd ymatebwyr yr arolwg ar-lein o'r farn y byddai prentisiaethau gradd yn rhoi cyfleoedd i weithwyr barhau yn eu hardaloedd lleol, gan fod o fudd sylweddol i leoliadau llai a gwledig. Mae ymchwil GIG Lloegr yn awgrymu bod cymaint â 77% o brentisiaethau gradd yn GIG Lloegr yn aros gyda'u cyflogwr presennol. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn teimlo bod angen

ystyried y pwysau ychwanegol ar gofrestreion pe bai prentisiaethau gradd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru, er y bydden nhw'n creu llwybr gyrfa i'r gweithlu presennol ac yn ehangu mynediad.

Byddai 100% o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi prentisiaethau gradd fel rhywbeth cyfwerth â gradd bresennol. Mae prentisiaethau gradd yn Lloegr ym maes AHP wedi'u datblygu ochr yn ochr â chyrrff proffesiynol. Mae llawer o'r cyrrff hyn wedi nodi y bydden nhw'n disgwyl bod ynghlwm yn yr un ffordd wrth ddatblygiad unrhyw brentisiaethau gradd yng Nghymru, i roi sicrwydd i ddysgwyr y dyfodol a chreu cwrs newydd cyfwerth â llwybrau amgen, sy'n bodloni safonau proffesiynol. Hoffai pob ymatebwr weld prentisiaethau gradd ar gael yn GIG Cymru. Roedd 87% yn cytuno y dylid disgwyl i raglenni prentisiaethau gradd gael eu cyflawni ar y cyd. Roedd yr ymatebwyr yn deall yr angen am safonau academaidd mewn unrhyw raglen prentisiaeth gradd, ond roeddent yn eirioli y dylai HEIau ystyried llwybrau amgen o ran mynediad a dethol. Mae ymatebion gan gynrychiolwyr y corff proffesiynol yn y gweithdai ar-lein wedi nodi bod profiad Lloegr yn dangos bod arbenigedd HEIau wedi helpu i gael mynediad i leoliadau addas, ac wedi sicrhau bod y cyrsiau'n bodloni gofynion y cwricwlwm a safonau cofrestru.

Mae 67% o'r ymatebwyr yn rhagweld y byddai defnyddio prentisiaethau gradd AHP yn GIG Cymru yn fanteisiol. Mae rhai sectorau AHP wedi nodi'r diffyg cyrsiau sydd ar gael fel rheswm pam y byddai prentisiaethau gradd yn darparu llwybr amgen at gymhwyso. Mae RCPOD yn cydnabod mai dim ond un cwrs gradd israddedig sydd ar gael ar gyfer trin traed yn Ne Cymru, ac yn credu y gallai llwybrau amgen at y radd helpu i ehangu mynediad. 67% of respondents anticipate a benefit from using AHP degree apprenticeships in NHS Wales. Mae RCLST wedi cefnogi'n weithredol unrhyw ddatblygiad o brentisiaethau gradd therapi iaith a lleferydd cyn cofrestru yng Nghymru fel llwybr hyfforddiant ychwanegol gwerthfawr, gan gydnabod y byddai angen i unrhyw lwybr cyn-cofrestru ddarparu dysgu tebyg sy'n dilyn canllawiau'r cwricwlwm. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod ei bod hi'n bosib nad yw'r angen am brentisiaethau gradd mor ddifrifol mewn meysydd megis Therapi Galwedigaethol, lle mae llwybrau rhan amser eisoes yn bodoli.

Nododd 78% o'r ymatebwyr nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn addas ar gyfer anghenion datblygu'r gweithlu. Ymhlith y rhesymau oedd diffyg cyllid ar gael i gefnogi unigolion sy'n gwneud cais am y cyrsiau, a dim ond cyrsiau gradd llawn amser sydd ar gael, sy'n broblem i bobl â theluoedd neu ymrwymadau personol eraill. Mae gan rai sectorau yn y gweithlu AHP fynediad cyfyngedig i gymwysterau gyda dim ond un neu ddwy brifysgol yng Nghymru yn cynnig gradd llawn amser yn eu harbenigedd. Mae hyn yn cyfyngu ar y niferoedd cyfyngu i fod yn is na gofynion y gweithlu. Yn ogystal, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai lleihau'r gradd llawn amser o bedair i dair blynedd yn arwain at gyfleoedd cyfyngedig o ran lleoliadau, ac wedi arwain at raddedigion yn cael cymwysterau gyda llai o sgiliau a llai o gysylltiad â chleifion. Nododd ymatebwyr o SLT a Dieteteg yr angen i ddarpariaeth ran amser ganiatáu ehangu mynediad. Roedd llawer o ymatebwyr yn nodi bod diffyg mynediad i lwybrau cynnydd wedi arwain at gynnydd yn nifer y bobl sy'n gadael y proffesiwn. Cododd ymatebwyr o Seicoleg bryderon ynghylch llwybr tameidiog ar gyfer Gweithwyr Cymorth Therapi o lefel 3 a 4 i lefel 6. Yr unig opsiwn ar hyn o bryd yw gadael a dilyn yr opsiwn llawn amser er mwyn cael gradd. Roedd ymateb ysgrifenedig gan aelod o Gymdeithas Seicolegol Prydain yn ystyried hyn yn 'syrthio drwy'r rhwyd' i lawer o weithwyr a allai fod eisiau gweithio mewn proffesiynau megis cwnsela, iechyd meddwl ac ymarfer therapiwtig. Rhoddodd llawer o ymatebwyr enghreifftiau o astudiaethau achos lle roedd staff wedi'u colli i Loegr, sydd â rhagor o lwybrau hyblyg. Nododd 49% o'r ymatebwyr y byddai'r sefydliad yn gallu cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen i ryddhau amser ar

gyfer astudio prentisiaeth gradd. Nododd un bwrdd iechyd nad o'n nhw'n gallu darparu staff ôl-lenwi ar gyfer dysgwyr ar raglenni rhan amser. Ro'n nhw'n awgrymu y gallai eu crybwyll fel gweithwyr rhan amser mewn unrhyw gynllun gweithlu fod yn ffordd o leihau'r baich ôl-lenwi.

Dim ond 9% o ymatebwyr AHP oedd yn gallu cadarnhau'r defnydd o brentisiaethau lefel 3 fel dull hyfforddiant llwybr cynnydd i staff, gydag Iechyd a Gofal Cymdeithasol (FR05110), Ymarferydd Ambiwllans Cysylltiol (FR04408), ILM lefelau 3, 4 a 5, Diploma Ymarferydd Therapi Cynorthwyol a Chymorth Therapi Galwedigaethol (FR04384) yn rhai a nodwyd yn benodol. Roedd llw o resymau dros beidio â defnyddio fframweithiau prentisiaeth, ond ro'n nhw'n cynnwys themâu cyffredin megis dim argaeledd ar gyfer cofrestrwyr AHP penodol yng Nghymru, diffyg cyllid, yr angen i gael gradd i ddechrau gweithio mewn proffesiynau, pryderon ynghylch niferoedd bach yn y proffesiwn ac anallu i gefnogi prentis. Nododd yr ymatebwyr awydd i gael rhagor o lwybrau mynediad at gymwysterau lefel gradd megis llwybrau WBL neu fynediad, nad oedd angen lefelau A. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at brentisiaethau gradd yn eu harbenigedd oedd ar gael yn Lloegr, ond roedd hyn yn golygu bod dysgwyr Cymru yn cael eu 'colli' i Loegr. Hefyd, rhoddodd un bwrdd iechyd enghreifftiau lle roedd Technegwyr Ffisiotherapi band 4 wedi'u colli i nyrsio ac Iechyd Galwedigaethol (OT) oherwydd mynediad i'r cyrsiau rhan amser hyn. Pe byddai llwybr tebyg ar gael ym maes Ffisiotherapi, mae'n bosib y byddai'r staff yn dal i fod yn gweithio yn y maes.

Cadarnhaodd 33% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliad yn meddu ar ddulliau i gefnogi'r gwaith o lenwi swyddi staff oedd ynghlwm wrth addysgu ac asesu'r prentisiaethau gradd. Roedd llawer o ymatebwyr yn nodi'r angen am gymorth ychwanegol, hyfforddiant a staffio cyn bod modd cyflwyno dulliau cyflawni priodol. Amlygwyd bod timau bach ac amgylcheddau cymunedol yn gweld hyn yn broblem yn benodol. Awgrymwyd y gallai hyn fod yn haws pe bai rolau pendant yn cael eu creu i fodloni'r disgwyliadau addysgol. Awgrymodd 76% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliad yn fodlon ac yn gallu hyfforddi staff i ymgymryd â rolau addysgu ac asesu ychwanegol. Rodd 60% yn gallu cadarnhau eu gallu sefydliadol i ymgorffori amser i staff ymgymryd â'r disgwyliadau addysgu ac asesu ychwanegol ynghlwm wrth gefnogi prentis gradd. Roedd 62% yn anymwybodol o'r amser ychwanegol a fyddai ei angen ar staff i alluogi'r broses o gefnogi prentis gradd yn llawn. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y byddai'n cymryd mwy o amser i gynllunio'r hyfforddiant i sicrhau bod y prentis wedi cael profiad o bob elfen ar ymarfer. Fodd bynnag, teimlwyd na fyddai hyn o bosib yn llawer mwy o waith na chynllunio ar gyfer tiwtoriaeth fel ag y mae ar hyn o bryd. Cododd yr ymatebwyr bryder am yr amser y byddai adrannau arbenigol bychan, megis Anableddau Dysgu (ALDI), yn ei dreulio yn hyfforddi prentisiaid gradd ac yna colli'r gweithiwr i adrannau prif-lif. Nododd 69% o ymatebwyr na fyddent yn gallu bodloni gofynion lles parhaus pob aelod staff drwy ddefnyddio'r gwasanaethau lles corfforaethol presennol. Codwyd pryderon hefyd ynghylch y pwysau ychwanegol ar staff o ran goruchwyllo dysgwyr, gan awgrymu y gallai hyn arafu cyfradd cynnydd y prentis ac arwain at lai o ymgysylltiad â'r prentis. Ni gyflwynwyd sylwadau ynghylch yr effaith ar lwybrau WBL rhan amser.

Rhoddwyd llawer o resymau yn yr arolwg pam y gallai sefydliadau fod yn anfodlon neu'n methu ag ymgymryd â rolau addysgu ac asesu ychwanegol. Daeth rhai themâu cyffredin i'r amlwg, gan gynnwys: diffyg capasiti i ryddhau staff oherwydd cyfraddau swyddi gwag sydd eisoes yn her i ddarpariaeth gwasanaeth, diffyg cyllid ôl-lenwi a diffyg strwythur sefydliadol. Bu i ymatebwr OT gydnabod mai un o'r manteision o fynd ar lwybr rhan amser yn hytrach na phrentisiaeth gradd yw bod yr HEiau yn trefnu'r lleoliadau a'r goruchwyliaeth, ac y byddai unrhyw amser sy'n cael ei neilltuo

i hyn yn gorfod dod o amser dyletswyddau clinigol. Mae byrddau iechyd yn annhebygol o gefnogi unrhyw gostau ychwanegol pan fo opsiynau eraill ar gael.

Roedd 67% o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod angen i brentisiaid gradd a phrentisiaid arferol gael eu cyflog gyda manteision llawn am o leiaf 16 awr yr wythnos. Cododd yr ymatebwyr bryderon ynghylch cyflogi prentisiaid gradd, gan gynnwys a fyddai'r prentis yn dal i gael ei gyflogi pe na byddai'n gallu cwblhau ei astudiaethau. Byddai 51% o'r ymatebwyr yn disgwyl i brentisiaeth gradd AHP gymryd yr un cyfnod amser, neu lai, i'w gwblhau o gymharu â graddau sy'n bodoli eisoes. Roedd y 49% oedd yn weddill o'r farn y byddai'n cymryd hirach, ond y byddai nifer gynyddol yr oriau clinigol yn fanteisiol.

Roed 76% yn ymwybodol o'r ffordd y mae graddau gofal iechyd yn cael eu hariannu yng Nghymru ar hyn o bryd, ond dim ond 31% oedd yn ymwybodol o sut mae modd cael gafael ar gyllid brentisiaeth yng Nghymru. Cadarnhaodd 60% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliadau'n gallu cynnig cyflogaeth cyn-cofrestru mewn swyddi sy'n galluogi cyflawniad prentisiaethau gradd. Nododd y BDA bod tystiolaeth yn dangos fod hyfforddiant yn y gwaith wedi helpu i ymgorffori a chryfhau hunaniaeth broffesiynol. Roedd 33% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau a allai fod ynghlwm wrth gyflwyno prentisiaethau gradd, a 49% yn ymwybodol o gostau ôl-lenwi a 47% yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth fuddsoddi i hyfforddi staff i gefnogi cyflawniad ac asesu. Roedd 53% yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth neilltuo amser i staff fentora, asesu ac addysgu.

Roedd 82% o'r ymatebwyr o blaid model prentisiaethau gradd a oedd yn gofyn am fuddsoddiad dros dro ychwanegol gan y sefydliad sy'n cyflogi. Roedd 67% o blaid model prentisiaeth gradd a oedd yn gofyn am fuddsoddiad rhannol ychwanegol gan y dysgwr. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod y cyfle i'r dysgwr fod heb gostau dysgu neu gyllid myfyriwr, a pheidio â chronni dyledion tra'n cael buddion fel gweithiwr, yn fantais allweddol o ran y prentisiaethau gradd. Nododd rhai ymatebwyr na fyddent mewn sefyllfa ariannol i gyfrannu tra'n gweithio ar eu band presennol, gydag eraill yn cydnabod bod unrhyw gyflog yn fwy na'r hyn y byddent yn ei ennill wrth astudio ar sail amser llawn. Bu i'r ymatebwyr hefyd godi pryderon ynghylch y dysgwr yn gorfod talu ffioedd, oedd yn wahanol i'r model yn Lloegr. Gallai hyn arwain at ddysgwyr yn mynd dros y ffin i Loegr i gael mynediad i'r cyrsiau 'am ddim'.

Nid oedd 67% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth gyflogi prentis, gyda 53% yn anymwybodol o gostau rhyddhau aelod staff i fynd ar leoliad ac absenoldeb astudio. Cododd timau AHP bach bryderon ynghylch y gallu i benodi staff cyflenwi i swyddi'r rhai ar absenoldeb astudio, a'r effaith bosibl ar ddarpariaeth gwasanaeth. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod fod rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng dysgwyr yn cofrestru ar gyfer prentisiaethau gradd, a'r dysgwr yn sylweddoli bod y sefydliad yn talu'n ôl iddynt drwy roi statws cyflogaeth.

Roedd yr ymatebion ysgrifenedig gan RCOT, RCPOD, RCSLT a BDA yn nodi eu bod yn cefnogi cyflwyno prentisiaethau gradd yng Nghymru, a'u bod yn credu bod angen llwybrau amgen i'r proffesiynau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y gwasanaethau. Nododd llawer o'r cyrff proffesiynol hyn eu bod wedi gweld canlyniadau positif o ran recriwtio a chadw staff yn y proffesiwn mewn llwybrau prentisiaethau gradd tebyg yn Lloegr. Roedd y cyrff proffesiynol a aeth i'r gweithdai ar-lein yn cydnabod manteision posib prentisiaethau gradd i'r gweithlu AHP yng Nghymru. Er hyn, ro'n nhw eisieu pwysleisio nad o'n nhw'n ddatrysiaid cyflym i bob problem. Ymhlith y rhesymau dros hyn oedd yr amser a allai fod ei angen i ddatblygu'r cyrsiau i sicrhau eu bod yn bodloni safonau'r cyrff proffesiynol, sicrhau bod yr HEIau yn gefnogol o ddatblygiad y cyrsiau, sicrhau bod dealltwriaeth o

ran lefel y gefnogaeth a fyddai ei hangen ar y prentis yn y sefydliadau, a'r angen i nodi unrhyw fodel cyllid posibl. Nododd llawer o'r cyrff proffesiynol hyn y bydden nhw'n croesawu cael eu cynnwys mewn camau pellach pe bai unrhyw ddatblygiad prentisiaethau gradd yng Nghymru.

Awgrymodd yr ymatebwyr ar-lein y gallai fod problem ynghylch y term 'prentisiaeth' a theimlad negyddol tuag at unigolion sy'n dilyn y llwybr hwn. Byddai cyfeirio at y llwybrau hyn fel llwybrau WBL rhan amser yn rhoi man cychwyn gwahanol, ac yn ymgysylltu â chynulleidfa ehangach o ran denu dysgwyr posibl. Awgrymwyd hefyd y gallai hyn fod yn bwynt pwysig ynghylch ceisio hyrwyddo unrhyw gyrsiau tebyg i'r dyfodol ymysg rhai sy'n gadael ysgol.

## Gwyddorau Gofal Iechyd (HCS)

Derbyniwyd 21 o ymatebion HCS i'r arolwg ar-lein gyda 95% o'r rhain yn gweithio i wasanaeth neu sefydliadau GIG Cymru. Derbyniwyd 5% gan wasanaethau ymarferwyr annibynnol yn ogystal â'r cyfraniadau ar lafar a wnaed yn ystod 8 o weithdai. Roedd ystod y sectorau wnaeth ymateb yn amrywiol, gan gynnwys biowybodeg, radiograffeg, radioleg, gwyddorau clinigol, therapïau a gwyddorau iechyd, ffisioleg cardiaidd, gwyddorau biofeddygol, rheoli gwasanaeth, gwasanaethau gwaed, rheoli gweithredol, awtomeiddio, diagnosteg cardiopwlmonaidd, gwybodeg clinigol, addysg a datblygu patholeg a'r sector annibynnol rhannu cymhorthion clyw.

- Roedd 57% o'r ymatebwyr yn deall ystod bresennol yr addysg ar gael ar lefel 4 ac uwch yng Nghymru.
- Roedd 57% yn deall modelau presennol amrywiol o ran darpariaeth addysg HCS llawn amser.
- Roedd 38% yn deall y modelau presennol amrywiol o ran darpariaeth addysg HCS rhan amser.
- Roedd 33% o'r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal â'r llwybrau addysg presennol yng Nghymru, roedd 95% o'r farn y gallai prentisiaethau gradd fod o fudd o ran cyfraddau cadw staff, a hefyd yn adnodd defnyddiol i hwyluso'r broses o uwchsgilio staff neu newid swyddi gweithwyr presennol. Awgrymodd 81% y gallai prentisiaethau gradd fod o fudd i amrywiaeth staff yn HCS. Roedd 90% yn credu y byddai prentisiaethau gradd yn adnodd defnyddiol i gau bylchau sgiliau.

Ar y cyfan, nododd ymatebwyr yr hoffent weld addysg ar gael i gefnogi'r gweithlu presennol i ddatblygu sgiliau a rolau gyda hyfforddiant math WBL/prentisiaeth yn ymgorffori cyrsiau ymarferol lle mae'r theori'n gwella ymarfer. Nid yw'r addysg er mwyn i staff wneud cynnydd â gallu priodol, ond heb radd briodol, ar gael i'r gweithlu. Mae llawer o fylchau'n bodoli ar hyn o bryd mewn llwybrau dysgu WBL rhan amser at gymhwyso/cofrestru. Derbyniwyd enghreifftiau gan wyddorau fasnwl, radioleg, gwyddorau biofeddygol, APT, ffisioleg cardiaidd, ffisioleg anadlol, BSc/Rhaglen Hyfforddiant Ymarferwyr (PTP) amser llawn a radiograffeg diagnosteg. Amlygodd yr ymgynghoriad enghreifftiau penodol o opsiynau cyfyngedig o ran staff cymorth band/lefel 4 yn datblygu i ddod yn ffisiolegwyr cardiaidd/anadlol. Fodd bynnag, mae buddsoddiad sylweddol i ddull model 'datblygu staff ein hunain' drwy ddefnyddio cyllid cyfwerth a chyflwyno cymhwyster galwedigaethol yn dechrau cael ei weithredu ym maes patholeg wedi blynyddoedd o waith datblygu. Mae angen amddiffyn y ddarpariaeth bresennol cyn ychwanegu opsiynau amgen eraill.

Byddai'r holl ymatebwyr yn gweld gwerth prentisiaethau gradd fel rhywbeth cyfwerth â gradd bresennol, a hoffent weld prentisiaethau gradd ar gael ledled GIG Cymru. Roedd 90% yn cytuno y dylid disgwyl i raglenni prentisiaethau gradd gael eu cyflawni ar y cyd. Roedd yr ymgynghoriad yn dangos tystiolaeth o faint oedd o blaid cyfleoedd dysgu ar sail gwaith i ehangu mynediad drwy lwybrau WBL rhan amser, i ddatblygu staff o ba bynnag radd yn GIG Cymru. Yn unol â hyn, roedd yr ymatebwyr yn gefnogol o ymgorffori arholiadau proffesiynol i ddarpariaeth graddau, gan ymestyn yr amseroedd lleoliad i sicrhau mwy o ymgysylltu â chleifion yn y gwaith a phrofiad clinigol. Felly, dylai unrhyw gwrs gradd (llawn amser neu ran amser) gynnwys portffolio, lle bo'n berthnasol, i alluogi dysgwyr i gofrestru wedi iddynt raddio. Roedd yr ymatebion yn awgrymu bod angen rhagor o



lwybrau strwythuredig o lefel 3 ymlaen. Mae rhai darpariaethau ar gael ond maent yn dameidiog, ac mae angen eu halinio. Pwysleisiwyd argaeledd cyllid ar gyfer datblygu sgiliau ac asesu yn y maes WBL fel rhywbeth i'w ystyried, yn enwedig o fewn dulliau datblygu strwythuredig Cynorthwyr Gwyddorau Gofal Iechyd. Dim ond 24% o ymatebwyr HCS oedd yn gallu cadarnhau eu bod nhw'n defnyddio prentisiaethau lefel 3 fel dull hyfforddiant a llwybr cynnydd i staff. Nodwyd bod prentisiaethau ILM, Aelod Staff Cyswllt Gwyddorau Gofal Iechyd (FR04422) a BSc Cyfrifiadura yn fwy cyffredin. Nid yw'r ddarpariaeth addysg bresennol yn bodloni gofynion hyfforddiant a chynnydd, oherwydd yn aml does dim darpariaeth i staff cyflogedig ddysgu heb orfod gadael swyddi i fynd i addysg llawn amser (fel sy'n benodol wir ym maes biowybodeg a genomeg pathogenau). Mae'r cwrs Rhaglen Hyfforddiant Ymarferwyr (PTP) yn galluogi hyfforddeion fod yn gymwys mewn rhai meysydd prawf yn dilyn tair blynedd o hyfforddiant. Nododd yr ymatebwyr bod y myfyrwyr yn anghymwys ar ôl gadael y rhaglen radd 3 blynedd, gan arwain at fod angen llawer o hyfforddiant pellach cyn dod yn Ffisiolegydd hollol gymwys. Er mwyn cyflwyno unrhyw lwybrau WBL yn llwyddiannus, nodwyd y byddai angen mwy o hyfforddeion ac yn bwysicach fyth, swyddogion hyfforddiant wedi'u hariannu'n llawn.

Roedd nifer o sylwadau gan ymatebwyr yn nodi y gallai prentisiaethau gradd fod yn ddull o gadw'r gweithlu heb eu cofrestru presennol fel cofrestreion, ehangu llwybrau gyrfa i staff presennol, ehangu cyfranogiad, a chynnyddu amrywiaeth y gweithlu drwy ddulliau mwy cynhwysol at gynnydd. Mae'r sylwadau'n awgrymu y dylai unrhyw ddarpariaeth ddysgu alluogi dysgwyr i weithio mewn ystod o amgylcheddau darparu gwasanaeth. Mae angen marchnata gwybodaeth am ddarpariaeth yn ehangach, a'i hygyrchedd, er mwyn hyfforddi a chefnogi datblygiad staff. Bydd angen penodi swyddogion hyfforddiant dynodedig gyda'r cymwysterau cywir i gefnogi dysgu ac asesu. Does dim digon o strwythur, cyllid na chapasiti yn y gweithlu presennol i gefnogi prentisiaethau. Roedd 43% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o gostau ôl-lenwi, 48% yn ymwybodol o gostau buddsoddi i hyfforddi staff i gefnogi darpariaeth ac asesu. Roedd 52% yn ymwybodol o'r costau o bennu amser staff er mwyn mentora, asesu ac addysgu. Mae 67% o'r ymatebwyr yn rhagweld budd o ddefnyddio prentisiaeth gradd HCS yn GIG Cymru, gyda'r Gwyddorau Gofal Iechyd wedi'u nodi fel sector enghreifftiol yn gyffredinol yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Nododd 76% o'r ymatebwyr nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn addas er mwyn cefnogi anghenion datblygu'r gweithlu, gyda 67% yn nodi y byddai eu sefydliad yn gallu cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen i ryddhau amser staff ar gyfer astudio prentisiaeth gradd. Lle bo'r ddarpariaeth ar gael yn Lloegr, bu i'r ymatebwyr adrodd am ymdrechion i fanteisio arni. Roedd rhain wedi methu oherwydd rhwystrau cyllid rhwng y ddwy wlad.

Yn fwy cyffredinol, trafodwyd y sefyllfa lle mae staff yn gorfod gadael cyflogaeth ac ymgymryd ag addysg llawn amser neu wneud cais am gwrs cyferwerth, sydd yn y bôn yn cyfyngu ar ddatblygiad staff. Amlygwyd bod ffisioleg cardiaidd yn fodel presennol nad yw'n cyflawni gwelliannau i'r gweithlu. Mae rhai dysgwyr yn astudio yn Lloegr ac yn peidio â dychwelyd i Gymru ar ôl cymhwyso. Mae rhai byrddau iechyd yn gyson yn ei chael hi'n anodd llenwi swyddi newydd gymhwyso (band 5). Yn ogystal, mae myfyrwyr yn aml angen rhagor o hyfforddiant, gan oedi gweithio'n annibynnol. Mae'r diffyg mynediad i fodolau prentisiaethau gradd a'r ffocws ar bresenoldeb wyneb yn wyneb ym mhrifysgolion yn cyfyngu ar fynediad teg i ddysgwyr ledled Cymru. Byddai unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol angen modelau mynediad lleol a/neu o bell. Yn fwy cyffredinol, roedd sylwadau'n ymwneud

â dulliau mwy syml ddim yn gweithio mewn ardaloedd gwledig, a'r ffocws ar y gymuned yng nghefn gwlad yn ei gwneud hi'n anos recriwtio. Yn aml, nid yw dysgwyr yn cael cynnig lleoliadau yng nghefn gwlad oherwydd problemau teithio, gan leihau'r tebygolrwydd eto o geisiadau am swyddi. Mae gwaith cenedlaethol diweddar â rhanddeiliaid a wnaed y tu allan i'r ymgynghoriad hwn yn awgrymu bod angen graddau prentisiaeth Radiograffeg Diagnosteg yng Nghymru i gefnogi recriwtio mewn ardaloedd gwledig. Byddai llwybrau rhan amser at WBL yn galluogi adrannau, mewn sefydliadau, i benodi'r gweithlu sydd ei angen a datblygu nhw mewn swyddi sy'n caniatáu darpariaeth gwasanaeth effeithlon, effeithiol a diogel.

Lle bo prifysgolion yn cynnig lleoliadau myfyrwyr gyda gwasanaethau labordai'r GIG (sy'n hanfodol fel sgiliau cyflogadwyedd o fewn gwyddorau biofeddygol, er enghraifft), nid yw'r rhain yn cynnig tâl. Felly, nid ydynt yn denu llawer o ymgeiswyr. Fodd bynnag, mae nifer fawr o hyfforddeion a dim swyddi ychwanegol ym mhob gwasanaeth, sy'n gwastraffu adnoddau ac amser i adrannau sy'n cynnal y lleoliadau, ac yn arwain at raddedigion yn symud allan o Gymru i gael gwaith. Mae ymgeiswyr sy'n dewis prentisiaethau yn fwy tebygol o aros yn yr ardal ar ôl cymhwyso, a fydd yn ei dro yn lleihau trosiant recriwtio, gan ychwanegu sicrwydd drwy leoliadau lleol.

Roedd llawer o ymatebion gan ddisgyblaethau yn nodi'r angen am fynediad i raddau rhan amser gyda staff ôl-lenwi wedi'u hariannu drwy hyfforddwyr ac aseswyr yn y gwaith ychwanegol i gefnogi'r ymgeiswyr. Cadarnhaodd 33% o'r ymatebwyr y byddai gan eu sefydliad ddulliau i gefnogi'r broses o ôl-lenwi swyddi gwag y staff fydd ynghlwm wrth asesu ac addysgu prentisiaethau gradd. Awgrymodd 81% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliad yn fodlon ac yn gallu hyfforddi staff ychwanegol i ymgymryd â rolau addysgu ac asesu ychwanegol. Bu i nifer o ymatebwyr amlygu'r angen am ragor o staff gyflenwi wrth hyfforddi ac asesu. Dylid gweithredu dull Cymru gyfan i sicrhau darpariaeth WBL cyfartal. Dim ond 67% oedd yn gallu cadarnhau gallu sefydliadol i neilltuo amser i staff ymgymryd â'r disgwyliadau addysg a hyfforddiant ychwanegol ynghlwm wrth gefnogi prentis gradd. Amlygodd yr ymatebwyr bod angen i swyddi hyfforddwyr gael eu cefnogi ar gyfer arbenigeddau gwahanol, gyda'r posibilrwydd o wneud hyn ar draws sefydliadau neu Gymru lle bo angen er mwyn cefnogi gofynion y rhaglen. Nid oedd 48% yn ymwybodol o'r amser ychwanegol a fyddai ei angen ar staff i gefnogi prentis gradd yn llawn, a nododd 71% y byddent yn gallu bodloni gofynion lles parhau pob aelod staff.

Roedd 57% o ymatebwyr yn ymwybodol bod angen i brentisiaid gradd a phrentisiaid arall gael eu cyflogi gyda'r manteision llawn am o leiaf 16 awr yr wythnos. Byddai 81% o'r ymatebwyr yn disgwyl i brentisiaeth gradd HCS bara o leiaf yr un hyd â gradd arferol. Roedd 57% yn ymwybodol o sut mae graddau gofal iechyd wedi'u hariannu yng Nghymru ar hyn o bryd, ond dim ond 29% oedd yn ymwybodol o sut mae modd cael gafael ar gyllid prentisiaethau yng Nghymru. Cadarnhaodd 52% o'r ymatebwyr y gallai eu sefydliadau gynnal cyflogaeth cyn-cofrestru mewn swyddi fyddai'n galluogi cyflawniad y prentisiaethau gradd.

Roedd 24% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau a allai fod ynghlwm wrth gyflwyno prentisiaethau gradd. Roedd 86% o blaid model prentisiaeth gradd a fyddai angen buddsoddiad rhan amser ychwanegol ar ran sefydliadau cyflogi. Roedd 71% o blaid model prentisiaeth gradd a fyddai angen buddsoddiad rhannol gan y dysgwr. Nid oedd 67% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau

ynghlwm wrth gyflogi prentis, a doedd 71% ddim yn ymwybodol o'r costau o ryddhau staff i fynd ar leoliad ac ar absenoldeb astudio.

## Fferylliaeth

Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan Boots, Fferylliaeth Cymunedol Cymru (CPW) a Chymdeithas Fferyllol Brenhinol Cymru (RPS) gyda 6 o ymatebion i'r arolwg ar-lein. Roedd 83% o'r rheiny'n gweithio i wasanaeth neu sefydliad GIG Cymru ac 17% yn gweithio i wasanaethau ymarferwyr annibynnol. Hefyd, derbyniwyd sylwadau adborth gan gynrychiolwyr fferylliaeth drwy'r 9 o weithdai ar-lein, gan gynnwys un yn benodol gyda chynrychiolaeth staff fferyllol o'r byrddau iechyd.

- Roedd 67% o'r ymatebwyr yn deall yr ystod bresennol o addysg sydd ar gael ar lefel 4 ac uwch yng Nghymru.
- Roedd 83% yn deall modelau darpariaeth addysg Fferylliaeth llawn amser.
- Roedd 50% yn deall modelau darpariaeth addysg Fferylliaeth rhan amser.
- Roedd 50% o'r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal â'r llwybrau addysg sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru, roedd 67% yn rhagweld y byddai prentisiaethau gradd yn ategu cyfraddau cadw staff. Er hyn, nododd yr ymatebwyr y byddai'n fwy defnyddiol i ddeall pam bod fferyllwyr yn gadael swyddi, ac edrych beth sy'n bosibl er mwyn gwneud y swyddi'n fwy boddhaol. Llenwi'r twll yn hytrach na thywallt rhagor o ddŵr i mewn iddo. Mae CPW yn ystyried hyn (*hynny yw y prentis yn symud i rôl arall ar ôl cymhwyso*) yn rhwystr posibl i gefnogaeth contractwyr fferylliaeth i brentisiaethau. Er mwyn goresgyn hyn, mae angen sicrhau bod contract prentis GIG ar waith sy'n lleihau'r tebygolrwydd o hyn yn digwydd yn fuan ar ôl cymhwyso, ac yn ad-dalu'r contractwr os yw hyn yn digwydd.

Roedd 67% o'r ymatebwyr yn ystyried prentisiaethau gradd yn adnodd defnyddiol o ran hwyluso'r broses o uwchsgilio neu newid swyddi gweithwyr presennol. Er hyn, roedd yr ymatebion ysgrifenedig yn nodi bod angen ystyried sut fydd myfyrwyr yng ngogledd a chanolbarth Cymru'n cael hyfforddiant prentisiaeth, gan fod ysgolion fferylliaeth prifysgolion Cymru yn y de ar hyn o bryd.

Mae 67% o'r farn y byddai prentisiaethau gradd yn fuddiol o ran amrywiaeth staff ym maes fferylliaeth. Er hyn, mae angen ymchwilio ymhellach i hyn ym maes fferylliaeth. Mae 67% yn credu y byddai prentisiaethau gradd yn adnodd defnyddiol i gau bylchau sgiliau. Awgrymodd yr ymatebwyr mewn byrddau iechyd y byddai'r manteision hyn yn arwynebol, heb unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng addysg fferylliaeth cyn-cymhwyso fel hyn a chyfraddau cadw fferyllwyr. Nododd yr ymatebion ysgrifenedig y gallai prentisiaeth gradd mewn Fferylliaeth annog mynediad i lwybrau addysg uwch i bobl na fyddai fel arall wedi gallu mynd i brifysgol, gan roi cyfle i brentisiaid ennill cyflog wrth hyfforddi. Yn ogystal, nododd yr RPS bod prentisiaethau yn rhoi hwb i symudedd cymdeithasol, gan gyrraedd pobl o gefndiroedd amrywiol, creu cyfleoedd i bawb a gwneud y byd gwaith yn fwy amrywiol. Mae prentisiaethau'n creu cyfle i uwchsgilio, recriwtio a hyfforddi talent i'r dyfodol. Byddant hefyd yn cyfrannu, yn rhan o ddull ehangach, at fynd i'r afael â diffyg staff mewn sawl swydd. Mae'r RPS hefyd yn nodi 'mae gradd israddedig *Fferylliaeth gyda blwyddyn baratoi (sylfaen)* ar gael yn Ysgol Fferylliaeth Prifysgol Abertawe. Mae'n ddull sy'n cynnig llwybr mynediad ychwanegol i radd israddedig MPharm i fyfyrwyr sydd heb lwyddo i fodloni'r gofynion mynediad yn y lle cyntaf. Maen nhw'n hynod gefnogol o ddull o'r fath, a dull o sicrhau bod modd denu myfyrwyr o'r radd flaenaf, tra'n cynnal hyblygrwydd ac ehangu mynediad i'r cwrs israddedig'. Gofynnodd un bwrdd iechyd sut fyddai modd sicrhau tegwch yn y broses, yn enwedig o ran y ffioedd.

Byddai 83% o'r ymatebwyr yn gweld gwerth prentisiaethau graff yn yr un modd â gradd bresennol. Hoffem weld prentisiaethau gradd ar gael ledled GIG Cymru. Noda'r RPS 'byddai angen i ddarparbrentisiaid fferylliaeth fod yn destun yr un gofynion ag israddedigion ar y llwybr traddodiadol, i sicrhau cyflawniad y gradd MPharm. Yn hynny o beth, byddai angen i unrhyw lwybr prentis fodloni'r gofynion mynediad presennol ar gyfer y gofrestr fferylliaeth, gan gynnwys hyfforddiant sylfaen ac asesiad, bodloni safonau'r Cyngor Ffarmacolegol Cyffredinol (GPhC) ar gyfer Addysg Gychwynnol a Hyfforddiant'. Mae ymatebwyr eraill yn gweld potensial prentisiaethau gradd i gynnig cymhwyster galwedigaethol, tra'n bodloni'r safonau proffesiynol. Fodd bynnag, mynegwyd pryder y gallai'r dull hwn wanhau'r sail wybodaeth sy'n gorfodi pobl i gymhwyso'u sgiliau.

Roedd 83% yn cytuno y dylid disgwyl i raglenni prentisiaeth gradd gael eu cyflwyno'n gydweithredol. Hefyd, byddai angen i ddarpar ymgeiswyr i'r rhaglen radd ar gyfer unrhyw brentisiaeth fferylliaeth a gynigir ddarparu tystiolaeth o gymwysterau academaidd tebyg i'r rhai sy'n gwneud cais am lwybr gradd traddodiadol. Nid oedd CPW yn gweld hyn yn rhwystr academaidd, ond yn hytrach yn fodd o roi sicrwydd y byddai unrhyw brentis yn gallu ymdopi â gofynion academaidd gradd fferylliaeth. Nododd ymatebwr o fwrdd iechyd 'byddai cael trafodaeth ar y cyd gydag ysgolion fferylliaeth yn ddefnyddiol hefyd i weld faint fyddai'n gallu gwneud cais am brentisiaeth gradd. O ran popeth yn ymwneud â'r gwyddorau, y cemeg, y dadansoddiad fferyllol, y fferylliaeth, yr holl bethau na fyddwch chi'n gallu eu gwneud yn y gweithle'.

Nododd 67% o'r ymatebwyr nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn addas i fodloni anghenion datblygu'r gweithlu, gyda 67% yn nodi y gallai eu sefydliad fod yn ddigon hyblyg ar gyfer patrymau astudio prentisiaeth gradd.

Dim ond 33% o'r ymatebwyr fferylliaeth oedd yn gallu cadarnhau defnydd presennol o brentisiaethau lefel 2 neu 3 fel llwybr cynnydd ar gyfer staff, a nodwyd bod Gwasanaethau Fferylliaeth Iechyd (FR05003) ar lefel 2 a 3 yn cael eu defnyddio.

Cadarnhaodd 33% o'r ymatebwyr y byddai gan eu sefydliad ddulliau i lenwi swyddi'r rhai fyddai ynghlwm wrth addysgu ac asesu prentisiaethau gradd. Awgrymodd 50% y byddai eu sefydliad yn fodlon ac yn gallu hyfforddi staff i ymgymryd â rolau addysgu ac asesu ychwanegol. Ymhlith y rhesymau dros anallu i hyfforddi staff mae costau perthnasol a seilwaith/maint y sefydliad yn cyfyngu ar gefnogaeth briodol lle byddai angen addysgwyr fferylliaeth sgilgar.

Roedd 67% yn gallu cadarnhau gallu yn y sefydliad i neilltuo amser i staff ymgymryd â disgyliadau addysgu ac asesu ychwanegol gyda chymorth prentis gradd. Nid oedd 50% yn ymwybodol o'r amser ychwanegol a fyddai ei angen ar staff i gefnogi prentis gradd yn llawn, a nododd 67% y byddant yn gallu bodloni gofynion lles parhaus staff.

Roedd 100% o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod angen i'r prentisiaid gradd a phrentisiaid fel arall gael eu cyflogi gyda manteision llawn am o leiaf 16 awr yr wythnos. Byddai 50% o'r ymatebwyr yn disgwyl i brentisiaeth gradd fferylliaeth gymryd yn hirach na gradd bresennol gyda 33% yn disgwyl i'r ddau beth gymryd yr un cyfnod o amser.

Roedd 67% yn ymwybodol o sut mae graddau gofal iechyd wedi'u hariannu yng Nghymru ar hyn o bryd, ond dim ond 29% oedd yn ymwybodol o sut mae cael gafael ar gyllid prentisiaeth yng Nghymru. Cadarnhaodd 83% y byddai eu sefydliadau yn gallu cynnig cyflogaeth cyn-cofrestru mewn swyddi sy'n caniatáu i'r prentisiaethau gradd gael eu cyflawni. Nododd byrddau iechyd llai bod hyn yn debygol o achosi anawsterau. Roedd 50% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth gyflwyno prentisiaethau gradd, gyda 50% yn ymwybodol o gostau llenwi swyddi a 33% yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth fuddsoddi i hyfforddi staff i gefnogi cyflawniad ac asesiad. Amlygodd CPW y byddai'r llwybr hyfforddi prentisiaeth ond yn llwyddiannus pe bai contractwyr fferylliaeth yn fodlon cyflawni'r lefelau sylweddol o hyfforddiant a chymorth sydd eu hangen, dros beth allai fod yn gyfnod hir iawn. Felly, mae'n hanfodol bod y costau hyfforddi wedi'u talu'n llawn, gan gynnwys amser y contractwr. Dylai hyn fod am ddim ar bwynt mynediad a chael ei gynnwys yn y cyfrifiadau cyllid prentisiaeth. Felly, mae'n hanfodol hefyd sicrhau bod argaeledd cyllid wedi'i egluro cyn gwneud unrhyw waith diangen ar gwmpasu hyfforddiant prentisiaeth. Hefyd, noda CPW bod angen cael mynediad llawn a thryloyw i'r costau o redeg rhaglen brentisiaeth i'r contractwr ar y cyd â'r cyrff statudol sy'n darparu'r hyfforddiant.

Roedd 67% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth neilltuo amser staff ar gyfer mentora, asesu ac addysgu. Mae 50% yn gefnogol o fodel prentisiaeth gradd sy'n gofyn am fuddsoddiad rhannol gan sefydliad cyflogi. Roedd 67% yn gefnogol o fodel prentisiaeth gradd a oedd yn gofyn am fuddsoddiad rhannol ychwanegol gan y dysgwr. Roedd rhai ymatebion yn cydnabod y byddai cwblhau'r prentisiaeth gradd heb ddyledion yn gymhelliant mawr. Nododd ymateb gan un o'r byrddau iechyd pe bai'r baich ariannol o fynd i'r brifysgol yn rhwystr, byddai modd cynnig bwrsariaeth (neu grantiau). Byddai darparu bwrsariaeth yn cynnig cydraddoldeb i israddedigion fferylliaeth. Nid oedd 67% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau o gyflogi prentis, gyda 50% yn anymwybodol o'r costau ynghlwm wrth ryddhau i leoliad ac absenoldeb astudio. Mae CPW 'o'r farn y byddai'n fwy deniadol i gyflogwyr a prentisiaid pe bai absenoldeb astudio'n digwydd yn rheolaidd, yn hytrach nag oriau ar hap y tu hwnt i hyfforddiant academaidd'. Mae CPW yn deall bod ôl-lenwi'n broblem yn ystod y treial, ac yn credu y gellid lleihau hyn yn sylweddol gydag ymrwymiad rheolaidd.

Mae un bwrdd iechyd wedi tynnu sylw at gynlluniau GIG Lloegr i ddatblygu prentisiaeth fferylliaeth pum mlynedd, ac yn eirioli'r dull gwersi a ddysgwyd ar waith yn GIG Lloegr, sy'n helpu i sicrhau bod unrhyw adnoddau a methodoleg GIG Cymru i'r dyfodol yn cael eu defnyddio'n briodol.

Roedd yr ymatebion i'r arolwg yn cynnwys ystod eang o farn o ran yr awydd i gael prentisiaethau gradd. Lle bo gwrthwynebiad oherwydd profiadau blaenorol ar lefel cyn-cofrestru, byddai unrhyw gais i'r dyfodol yn gofyn am gam peilot â charfan fach i sicrhau canlyniadau priodol a gweithrediad ar raddfa ehangach. Roedd ymatebion arolwg eraill yn nodi er mwyn parhau i ddatblygu'r gweithlu fferyllwyr presennol a phontio i Ragnodi Annibynnol (IP), mae angen sicrhau bod Ymarferwyr Rhagnodi Dynodedig (DPPau) ac Ymarferwyr Meddygol Dynodedig (DMPau) ar gael i gefnogi IPau i gyflawni'r cymhwyster. Hefyd, dylid sicrhau rhagor o fynediad ac ymwybyddiaeth o yrfaedd cynnar mewn fferylliaeth ymysg poblogaethau gadael ysgol i gefnogi'r gweithlu fferylliaeth cymunedol ehangach.

Mae RPS a CPW wedi nodi cefnogaeth dros brentisiaethau ym maes fferylliaeth. Mae'r ddau'n gweld ystyriaethau a phryderon a fyddai angen eu hegluro er mwyn ystyried trafodaethau ymhellach ar brentisiaeth gradd ym maes fferylliaeth.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cywerthedd cymhwyster prentisiaeth gyda'r graddau MPharm sydd ar gael ar hyn o bryd, a'r rhaglen hyfforddiant ôl-sylfaen, gan gynnwys rhagnodi.
- Cynnwys academaidd gradd a ariennir gan lwybr prentisiaeth.
- Dyluniad a chymhareb dysgu yn y gwaith yn erbyn darpariaeth gwasanaeth mewn rhaglen 5 mlynedd.
- Amddiffyniad dysgwyr ar raglen brentisiaeth rhag profi camfanteisio posibl gan y cyflogwr.
- Lefelau cyllid i ganiatáu cynnydd mewn lleoliadau clinigol.
- Canfyddiad y cyhoedd o brentisiaethau.

Ymhlith barnau eraill roedd rolau newydd i'r maes, megis Graddau Gweithgynhyrchu'r Gwyddorau, a allai elwa o ddatblygu prentisiaethau gradd. Hefyd, mae angen gwell addysg uwch i dechnegwyr fferylliaeth, gwyddonwyr fferylliaeth a gwasanaethau technegol fferylliaeth. Ar y cyfan, roedd fferyllwyr o'r farn bod y ddarpariaeth israddedig bresennol yn addas at y diben. Fodd bynnag, roedd darpariaeth ôl-raddedig ar gyfer fferyllwyr wedi gwanhau ychydig yn ddiweddar, ac mae angen datblygu'r maes ymhellach.

## Meddygaeth a Deintyddiaeth

Derbyniwyd 8 o ymatebion meddygaeth a deintyddiaeth drwy'r arolwg ar-lein. Roedd 100% o'r ymatebwyr yn gweithio i wasanaeth neu sefydliad GIG Cymru. Derbyniwyd sylwadau pellach drwy'r cyfraniadau ar lafar a wnaed yn yr 8 o ddigwyddiadau ymgynghori ar-lein.

- Roedd 25% o'r ymatebwyr yn deall yr ystod bresennol o addysg oedd ar gael ar lefel 4 ac uwch yng Nghymru
- Roedd 75% yn deall modelau presennol amrywiol o gyflawniad ar gyfer addysg llawn amser.
- Roedd 38% yn deall modelau presennol amrywiol ar gyfer cyflwyno addysg rhan amser.
- Roedd 12% o'r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal â'r llwybrau addysg presennol yng Nghymru, gallai 63% weld sut byddai prentisiaethau gradd o fudd o ran cyfraddau cadw staff, 50% yn teimlo felly am amrywiaeth staff, a 50% fel adnodd defnyddiol o ran hwyluso'r broses o uwchsgilio neu newid swyddi gweithwyr presennol y sector. Roedd 50% o'r farn y gallai prentisiaethau gradd fod yn adnodd defnyddiol i dargedu bylchau sgiliau.

Byddai 100% o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi prentisiaethau gradd yn yr un modd â gradd bresennol, ond dim ond 38% fyddai'n awyddus gweld prentisiaethau gradd ar gael ar draws GIG Cymru. Roedd 38% yn cytuno y dylid disgwyl dulliau cyflawni cydweithredol o ran y rhaglenni prentisiaeth gradd, heb eglurder ar bwy fyddai'r partneriaid.

Nododd 87% o'r ymatebwyr bod y ddarpariaeth bresennol yn addas er mwyn bodloni anghenion datblygu'r gweithlu. Fodd bynnag, roedd rhai'n credu nad oedd y ddarpariaeth addysg bresennol yn bodloni anghenion y gweithlu presennol, gyda rhesymau megis amser a lle annigonol i roi hyfforddiant, problemau'n bodloni anghenion hyfforddiant oherwydd contractau rhan amser a'r effaith ar rotas staff. Nododd yr ymatebwyr yr hoffent weld rhagor o gyllid ar gael, a fyddai'n gallu cael ei ddefnyddio i gynyddu nifer y staff meddygol a lleihau'r amser sy'n cael ei wastraffu'n teithio ledled y bwrdd iechyd a mwy o reolaeth o amserlenni personol, gan nad oes llawer o amser i addysgu a goruchwyllo ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd 100% o'r ymatebwyr nad oedd fframweithiau prentisiaethau'n cael eu defnyddio yn y sector hwn i ddatblygu staff ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd rhai sylwadau'n awgrymu bod rhai fframweithiau prentisiaethau islaw na lefel radd yn cael eu defnyddio i hyfforddi Nyrsys Deintyddol. Nododd un ymatebwr nad oedd hyn yn cael ei ystyried yn fodel addas. Mae angen nodi llwybrau dysgu yn glir er mwyn galluogi cynnydd i hylendid deintyddol neu therapi deintyddol. Yn hyn o beth, gellid datblygu lefelau, gan gynnwys lefel 5, i fod yn fframwaith prentisiaeth. Mae dulliau dysgu ar sail gwaith yn galluogi dysgwyr i gael y profiad sydd ei angen arnynt gan y gweithlu a thrin y cyhoedd yn uniongyrchol.

Nododd yr ymatebwyr nad oedd hyfforddiant dan lefel gradd yn briodol ar gyfer y sector meddygol gofal iechyd. Roedd y sylwadau'n awgrymu mai'r rhesymau am hyn oedd 'nad yw cynllun prentisiaeth yn briodol oherwydd dim ond gradd feddygol sy'n hyfforddi unigolion i weithio yn rôl meddyg'. Roedd un ymatebwr yn teimlo bod y dull hyfforddiant presennol wedi hen ennill ei blwyf, a bod y model prentisiaethau eisoes yn cael ei efelychu yn y defnydd o leoliadau clinigol rheolaidd. Roedd 63% o'r farn y byddai'n cymryd hirach i gyflawni prentisiaethau gradd pe byddent yn cael eu



cyflwyno.

Nododd sylwad yn ystod y trafodaethau ar-lein gan gynrychiolwr deintyddiaeth y byddai prentisiaethau gradd yn ddefnyddiol. Mae heriau'n bodoli, gan gynnwys o ran dulliau cyllido, yn ogystal â newid y dulliau addysg traddodiadol er gwaethaf gwerth amlwg prentisiaethau a'u gallu i feithrin sgiliau. Mae'r heriau hyn yn amlwg mewn dulliau presennol yn Lloegr. Roedd 75% o'r ymatebwyr o'r farn na fyddai eu sefydliadau'n gallu cefnogi'r broses o ryddhau prentisiaid gradd na darparu staff cyflenwi i'w disodli. Byddai 63% yn anfodlon neu'n methu â hyfforddi staff i ymgymryd â rolau addysgu ac asesu ychwanegol. Ymhlith y rhesymau dros beidio â hyfforddi staff oedd diffyg adnoddau, diffyg gwybodaeth ynghylch pwy fyddai'n cyflawni'r rôl a diffyg cymorth i brentisiaethau meddygol. Yn y model presennol, mae eisoes disgwyliad am amser goruchwylio, hyfforddi a mentoriaeth gyda phwysau ar y byrddau iechyd i gefnogi myfyrwyr. Byddai llwybrau ychwanegol at ddysgu'n ychwanegu cymhlethdod ac yn golygu bod angen rhagor o fuddsoddiad ac amser i hyfforddi staff ar y cynlluniau newydd hyn. Cadarnhaodd 75% o'r ymatebwyr na fyddai eu sefydliadau'n gallu llenwi swyddi'r staff fyddai'n addysgu ac yn asesu'r prentisiaethau gradd. Gyda 25% yn nodi y byddai'r sefydliad yn gallu cynnig hyblygrwydd i ryddhau amser i fodloni patrymau astudio prentisiaeth gradd.

Dim ond 25% oedd yn gallu cadarnhau gallu yn y sefydliad i neilltuo amser i staff ymgymryd â'r disgwyliadau addysgu ac asesu ychwanegol ynghlwm wrth gefnogi prentis gradd. Roedd 50% yn anymwybodol o'r amser ychwanegol fyddai ei angen ar staff i gefnogi'n llawn y prentis gradd, a 25% yn nodi y byddant yn gallu bodloni gofynion lles parhaus pob aelod staff. Roedd 63% o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod angen i brentisiaid gradd gael eu cyflogi gyda manteision llawn am o leiaf 16 awr yr wythnos.

Nid oedd 75% o'r ymatebwyr yn gallu cadarnhau y byddai eu sefydliadau'n cynnig cyflogaeth cyn-cofrestru mewn swyddi addas ar gyfer prentisiaethau gradd.

Byddai rhai ymatebwyr yn croesawu rhagor o wybodaeth ynghylch y ffordd y byddai'r swyddi hyn yn cael eu hariannu. Prin yw'r arian eisoes yn GIG Cymru i dalu'r costau ynghlwm wrth gyflogi prentis. Roedd 63% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau a allai fod ynghlwm wrth gyflwyno prentisiaethau gradd, gyda 63% yn ymwybodol o'r costau ôl-lenwi a 50% yn ymwybodol o'r costau buddsoddi i hyfforddi staff a chefnogi cyflawniad ac asesu, ochr yn ochr â'r costau ynghlwm wrth neilltuo amser i staff i fentora, asesu ac addysgu. Roedd 50% yn cefnogi model prentisiaeth gradd a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad rhannol gan sefydliad sy'n cyflogi. Dim ond 38% oedd yn cefnogi model prentisiaeth gradd a fyddai'n gofyn am fuddsoddiad rhannol ychwanegol gan y dysgwr. Yn ogystal, roedd y sylwadau a wnaed yn awgrymu bod teimlad y byddai cyflwyno prentisiaeth gradd meddygol yn achosi system dwy haen, lle byddai rhai myfyrwyr yn cronni dyledion mawr, ac eraill ddim. Nid oedd 62% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth gyflogi prentis, gyda 62% yn anymwybodol o'r costau rhyddhau i leoliad ac absenoldeb astudio.

## Addysg a Hyfforddiant

Derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan Gyngor y Deoniaid yng Nghymru a Phrifysgol De Cymru ar y cyd â'r Gyngghair Strategol Addysg Bellach ochr yn ochr â 12 o ymatebion Addysg a Hyfforddiant drwy'r arolwg ar-lein, gyda 92% o'r rhain yn gweithio mewn gwasanaeth neu sefydliad GIG Cymru. Derbyniwyd 8% gan ddarparwyr addysg. Hefyd, derbyniwyd sylwadau adborth gan gynrychiolwyr E&T drwy'r 9 o weithdai ar-lein, gan gynnwys un cyfarfod wyneb yn wyneb gyda Chyngor y Deoniaid Cymru.

Roedd llawer o ymatebwyr yn cydnabod yr heriau'n wynebu darparwyr gofal iechyd, gan gynnwys diffyg staff, problemau recriwtio a chadw, anghenion newidiol poblogaeth Cymru a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar wasanaethau. Yn unol â Chynllun Gweithredu ar y Gweithlu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, mae llawer o ymatebwyr yn cefnogi rhagor o fuddsoddiad a dewis o ran hyfforddiant a datblygu hyblyg, a allai helpu i daclo rhai o'r heriau y mae'r sector yn eu hwynebu.

- Roedd 92% o'r ymatebwyr yn deall yr ystod bresennol o addysg sydd ar gael ar lefel 4 ac uwch yng Nghymru.
- Roedd 83% yn deall modelau darpariaeth Addysg a Hyfforddiant llawn amser ar hyn o bryd.
- Roedd 75% yn deall y modelau amrywiol sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer darpariaeth rhan amser.
- Roedd 25% o'r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr (42% yn deall i raddau).

Yn ogystal â'r llwybrau addysg presennol yng Nghymru, gallai 100% weld sut byddai prentisiaethau gradd o fudd o ran cyfraddau cadw staff. Byddant hefyd yn adnodd defnyddiol i hwyluso'r broses o uwchsgilio neu newid swyddi gweithwyr presennol, gan fod yn fanteisiol o ran amrywiaeth staff a thargedau bylchau sgiliau.

Byddai 100% o'r ymatebwyr yn gweld gwerth prentisiaeth gradd yn yr un modd â gradd arferol. Ro'n nhw hefyd yn awyddus i weld prentisiaethau gradd ar gael ledled GIG Cymru. Fodd bynnag, byddai angen newid diwylliant dros gyfnod hir er mwyn gwaredu'r stigma sy'n ystyried prentisiaethau fel llwybr israddol. Roedd 83% yn cytuno y dylid disgwyl cyflawniad ar y cyd o raglenni prentisiaeth gradd. Nododd rhai ymatebwyr y byddai cyd-ddarpariaeth yn dibynnu ar y proffesiynau a chymhwysedd galwedigaethol staff y brifysgol a/neu'r darparwr addysg.

Cynigiodd yr ymatebwyr y dylai unrhyw benderfyniad ynghylch ehangu prentisiaethau gradd ym maes gofal iechyd fod o ganlyniad i drafodaethau ar y cyd ac ymgynghori gyda phrifysgolion mewn sy'n cynnal y cyrsiau mewn partneriaeth ag AaGIC. Byddai hyn yn galluogi asesiad cynhwysfawr o'r goblygiadau ynghlwm wrth gyflwyno llwybrau galwedigaethol, a bydd o gymorth i sicrhau bod safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant gofal iechyd yn cael eu cynnal neu eu gwella. Awgrymwyd y gallai'r sefydliadau sydd â phrofiad o ddarparu prentisiaethau gradd yn Lloegr ddylanwadu arferion gorau. Amlygwyd y gall datrysiadau ar y cyd rhwng prifysgolion ac AaGIC ehangu mynediad at gynydd ym maes gofal iechyd, a chreu datrysiadau arloesol i hwyluso datblygiad gweithwyr proffesiynol gofal iechyd hynod sgilgar. Fodd bynnag, nodwyd bod prifysgolion yn brysur iawn mewn sawl maes, gan gynnwys ceisio bodloni rheoleiddwyr a sefydliadau megis HCPC a Chymdeithasau

Brenhinol. Felly, byddai hi'n bwysig dylunio rhaglenni o safbwynt academiaidd sy'n bodloni gofynion y rheoleiddwyr, gyda dysgu ar sail gwaith wedi'i ymgorffori.

Gallai prentisiaethau gradd helpu o ran recriwtio drwy ehangu mynediad at gyfleoedd i bobl o bob cefndir ac ardaloedd sy'n cael eu tangynrychioli yng Nghymru. Gallai proffesiynau iechyd cysylltiol llai, sy'n ddeniadol o bosibl i bobl sydd am newid gyrfa er enghraifft, elwa hefyd ar lwybr prentisiaeth. Fodd bynnag, nodwyd pe bawn yn ceisio ehangu mynediad i grwpiau cymunedol amrywiol yng Nghymru a newid proffil ein gweithlu i adlewyrchu'r cymunedau, byddai angen dilysu ar sail tystiolaeth. Gallai hyn gadarnhau a yw'r tybiaethau hyn yn gywir, a phennu a yw prentisiaethau gradd yn cynyddu amrywiaeth o gymharu â llwybr gradd traddodiadol.

Mae'r cynnig addysg yng Nghymru yn eang ac yn cyfleu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi sawl sector. Mae'r sefydliadau sy'n cyfrannu at yr ymateb hyn yn brofiadol, ac mewn sefyllfa dda i wasanaethu anghenion y sector gofal iechyd. Er hyn, maent yn cydnabod nad yw'r holl sefydliadau'n darparu yn y meysydd hyn, neu nid oes ganddynt nifer y staff sydd ei hangen na chyfleusterau arbenigol. Nodwyd ehangu cwrmpas y sefydliadau i allu cynnig darpariaethau fel hyn yn bwynt i'w ystyried. Roedd sefydliadau addysg bellach (AB) yn croesawu'r cyfle posibl i roi cyfle i unigolion talentog symud at astudio ar lefel uwch.

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod y cynnig addysg gofal iechyd presennol i bob pwrpas yn bodloni anghenion y sector, ond weithiau gall ei ystyried fel ysgol i'w dringo. Gallai hyn greu bylchau mewn gweithlu sydd eisoes â throsiant staff uchel. Y farn oedd bod angen ystyried rhai proffesiynau y penodol, y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen a'r angen am brentisiaethau gradd ar gyfer proffesiynol a disgyblaethau unigol.

Fel enghraifft penodol, bu i'r adolygiad diweddar o'r fframwaith digidol alluogi adolygiad holistig o gymwysterau a llwybrau o lefel 3 i lefel 6 (prentisiaeth gradd peilot LIC). Daeth grŵp ffocws yn cynnwys cynrychiolwyr AB a phrifysgolion at ei gilydd i edrych ar yr ystod o gymwysterau, adolygu pa mor gyfredol ydyn nhw a sicrhau bod llwybrau yn glir ac yn gysylltiedig â'i gilydd. Roedd pob un o'r rhanddeiliaid yn gallu rhannu eu profiad o'r sector, anghenion y cyflogwyr a'u cymuned brentisiaeth. Dyma'r tro cyntaf i adolygiad cael ei gynnal gan ystyried y daith brentisiaeth o'r dechrau i'r diwedd, ac roedd yn llwyddiant. Bu i'r ymgynghoriad ar y fframwaith digidol amlygu'r angen am newidiadau sylweddol i'r cwricwlwm, llwybr gradd newydd a thechnolegau newydd. Hefyd, amlygwyd yr angen i newid yr ieithwedd o bryd i'w gilydd. Cydnabuwyd y dull hwn yn arfer da, a dylid ei ystyried ar gyfer unrhyw waith datblygu yn y dyfodol.

Roedd llawer o'r sylwadau gan ymatebwyr yn nodi y gallai prentisiaethau gradd gefnogi amrywiaeth yn y gweithlu, cefnogi cyfraddau cadw staff a datblygu sgiliau. Nodwyd hefyd y byddai'n adnodd defnyddiol er mwyn cynnal hyfforddiant o safon uchel, a byddai hefyd yn caniatáu datblygiad a llwybrau cynnydd. Byddai'r gallu i ddylanwadu cymheiriad addysgol yn caniatáu dull cydlynol o ran datrys heriau amrywiaeth recriwtio, ac yn hyrwyddo'n ehangach yr ystod lawn o lwybrau gofal iechyd posibl a allai gael eu datblygu.

Ond er bod prentisiaethau'n cynnig datrysiadau recriwtio a chadw staff, bydd o bosibl yn costio. Roedd rhai ymatebwyr yn ei gweld hi'n bwysig cydnabod y gwaith rhagweithiol sydd ei angen, nid yn

unig i baratoi sefydliadau addysg i gyflawni prentisiaethau ond hefyd i baratoi'r gweithle a'r gweithlu at ddarparu cymorth o safon dda yn gyson. Rhaid i'r sector fod yn ymwybodol o'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi prentisiaethau, a allai gynnwys recriwtio staff newydd i lenwi rhai swyddi neu uwchsgilio staff presennol i gefnogi a bodloni gofynion dysgu unrhyw raglen. Hefyd, bydd angen ystyried amser astudio a dysgu, cymorth bugeiliol yn y gweithle a'r amgylchedd dysgu, y gofyn sylweddol am offer a sgiliau arbenigol i ddarparu'r profiad dysgu. Mae angen hysbysebu'r ddarpariaeth dysgu a'r llwybrau sydd eisoes ar gael i staff, a sut i gael mynediad i'r rhain. Mae diffyg strwythur, cyllid a chapasiti yn y gweithlu presennol i gefnogi prentisiaethau.

Nododd rhai ymatebwyr bod angen prentisiaethau gradd i gynnig llwybr ychwanegol i aelodau staff sydd, am resymau amrywiol, heb gael mynediad i raddau prifysgol llawn amser. O ran cynnydd, cadw a recriwtio staff, rhaid cynnwys prentisiaethau gradd fel opsiwn i rai sectorau o leiaf. Credir bod y llwybr prentisiaeth gradd yn cynyddu'r profiad yn y gweithle, gyda dysgwyr cymwys yn gallu dangos ymreolaeth a setlo'n gynt i'w swydd.

Roedd 58% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau ôl-lenwi, a 67% yn ymwybodol o'r costau buddsoddi i hyfforddiant staff i gefnogi darpariaeth ac asesu, gyda 37% yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth neilltuo amser staff ar gyfer mentora, asesu ac addysgu. Roedd 75% o'r ymatebwyr yn rhagweld budd o ddefnyddio prentisiaeth gradd yn GIG Cymru gyda rhai ymatebwyr yn nodi na fyddent eisio'u risg o barhau â'r ffordd y mae modelau dysgu rhan amser presennol yn cael eu cyflawni.

Nododd 50% o'r ymatebwyr nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn addas i fodloni anghenion datblygu'r gweithlu, gyda 58% yn nodi y byddai'r sefydliad yn gallu cynnig yr hyblygrwydd sydd ei angen i neilltuo amser ar gyfer patrymau astudio prentisiaeth gradd. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bod y system bresennol yn cyfyngu gwaith ehangu mynediad gyda heriau cyllid cysylltiedig. Roedd yr adborth yn cydnabod diffyg y cwmpas cyfleoedd dysgu mewn meysydd clinigol a meysydd galwedigaethol uwch.

Cadarnhaodd 33% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliad yn gallu llenwi swyddi'r staff fyddai ynghlwm wrth addysgu ac asesu prentisiaethau gradd, gyda 58% yn awgrymu bod ganddynt ddulliau eraill o wneud hyn. Nododd 42% o'r sefydliadau wnaeth ymateb y gallent ryddhau a llenwi swydd y prentis gradd. Mae'r dull ôl-lenwi hefyd yn datblygu'r gweithlu presennol, yn cefnogi datblygiad gyrfa, a galluogi staff i feithrin profiad wrth gyflenwi mewn swyddi eraill. Awgrymodd 83% y byddai eu sefydliad yn gallu ac yn fodlon hyfforddi staff i ymgymryd â rolau addysgu ac asesu ychwanegol. Roedd 67% yn gallu cadarnhau gallu sefydliadol i neilltuo amser i staff ymgymryd â'r disgwyliadau addysgu ac asesu ychwanegol ynghlwm wrth gefnogi prentis gradd. Fodd bynnag, awgrymodd sefydliadau gyda phrofiad o fod â phrentisiaid gradd y byddai angen llawer o ad-drefnu a chynllunio yn hyn o beth, a byddai angen sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi/creu swyddi o'r fath. Roedd 58% yn anymwybodol o'r amser ychwanegol a fyddai ei angen ar staff i gefnogi'n llawn y prentis gradd, a nododd 67% y byddent yn gallu bodloni gofynion lles parhaus pob aelod staff. Mae angen ystyried y pwysau ychwanegol ar staff o ran amseriad asesiadau, a all arwain at oedi i ddysgwyr sy'n cyflawni cymwysterau.

Roedd 92% o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod angen i brentisiaid gradd a phrentisiaid fel arall gael eu cyflogi gyda buddion llawn am o leiaf 16 awr yr wythnos. Nododd llawer o'r ymatebwyr na fyddai hyn yn ddigon o amser i fodloni gofynion addysgol prentisiaeth gradd. Byddai 67% o'r ymatebwyr yn disgwyl i brentisiaeth gradd bara o leiaf yr un hyd o amser i'w gwblhau â gradd arferol. Roedd 92% yn ymwybodol o sut mae graddau gofal iechyd yn cael eu hariannu yng Nghymru ar hyn o bryd. Noddo pob ymatebwr y byddai eu sefydliadau yn gallu cynnig cyflogaeth cyn-cofrestru mewn swyddi fyddai'n caniatáu i'r prentisiaethau gradd gael eu cyflawni.

Roedd hanner yr ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau a allai fod ynghlwm wrth gyflwyno prentisiaethau gradd. Mae 58% yn cefnogi model prentisiaeth gradd sy'n gofyn am fuddsoddiad rhannol ychwanegol gan y sefydliad cyflogi. Roedd 25% yn cefnogi model prentisiaeth gradd sy'n gofyn am fuddsoddiad rhannol ychwanegol gan y dysgwr. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bod cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn hanfodol er mwyn creu llwybrau cynaliadwy a hygyrch at broffesiynau gofal iechyd heb roi baich ariannol annheg ar gyflogwyr neu brentisiaid eu hunain. Mae'r dull hwn yn unol ag ymrwymadau ymatebwyr i ddarparu cyfleoedd addysg agored a hygyrch i bawb, waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau ariannol. Roedd yr ymatebwyr yn frwd yn erbyn peidio â gosod costau ychwanegol ar ddysgwyr, tra'n nodi bod byrddau iechyd eisoes yn talu symiau sylweddol i'r ardoll. Er hyn, nid ydynt yn cael llawer yn ôl am eu harian drwy'r modelau prentisiaeth ar hyn o bryd. Mae angen ystyried modelau cyllid amgen os yw prentisiaethau gradd am gael eu gweithredu yng Nghymru, gan fod sefydliadau GIG Cymru eisoes yn cyfrannu at gostau hyfforddiant yng Nghymru. Nid oedd 33% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth gyflogi prentis, gyda 25% ddim yn ymwybodol o'r costau o ryddhau i leoliad ac absenoldeb astudio. Roedd 58% o'r ymatebwyr yn gallu cadarnhau defnydd presennol o brentisiaethau fel dull hyfforddiant a llwybr cynnydd er mwyn datblygu staff. Dyma restr o'r llwybrau cynnydd sydd ar waith ar hyn o bryd: Ymarferydd Ambiwlans Cyswllt (FR04408), Cymorth Gofal Iechyd Clinigol (FR05001), Gwybodeg Iechyd (FR04183), Iechyd a Gofal Cymdeithasol (FR04446), Nyrsio Deintyddol, Technegwyr Fferylliaeth, Cymorth Perilawfeddygol (FR05060), Iechyd a Gofal Cymdeithasol (FR05110), Gwasanaethau Cymorth Gofal Iechyd (FR05024), Cymorth Mamolaeth a Pediatrig (FR04412) a Chymorth Therapi Galwedigaethol (FR04384).

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod gan brentisiaethau gradd rôl i'w chwarae o ran ateb y galw am weithwyr proffesiynol hynod sgilgar, ac hefyd yn cydnabod y gallent fynd i'r afael â diffyg staff. Ymhlith y meysydd a oedd yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer llwybrau prentisiaeth gradd mae prentisiaethau gradd therapi (gan gydnabod bod mwy o angen i AHPau ddefnyddio model gofal asesydd dibynadwy), parhau â'r prentisiaethau Gwybodeg Iechyd i lefelau uwch, Gwyddorau Gofal Iechyd a rolau Gweinyddol/Clercaidd. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes mae'n bwysig i unrhyw benderfyniadau ar ym mha feysydd y dylid cyflwyno prentisiaethau gradd gael eu gwneud ar y cyd â darparwyr gofal iechyd a phrifysgolion Cymru. Gallai hyn sicrhau bod prentisiaethau gradd wedi'u dylunio i fodloni anghenion penodol GIG Cymru, a'u bod yn cael effaith positif ar gadw talent mewn cymunedau lleol, ymateb i anghenion tra'n gwella'r diffyg darpariaeth leol mewn rhai ardaloedd. Gallai cefnogi staff GIG Cymru band 3 a 4 i symud ymlaen i gael cofrestrriad proffesiynol helpu i ddatrys problemau'r gweithlu. Rhoddwyd enghraifft ynghylch y llwybr tyfu o'r tu mewn a welwyd yn natblygiad y prentisiaeth lefel 4 mewn ffisioleg cardiaidd, gyda'r dyhead i wneud cynnydd drwy brentisiaeth gradd yn opsiwn yn y dyfodol agos.

Nododd rhai ymatebwyr yr angen i sicrhau mwy o debygrwydd rhwng llwybrau dysgu ar sail gwaith ac academiaidd, pe bai prentisiaethau gradd yn cael eu cyflwyno. Mae sicrhau bod y cymwysterau a geir yn gyfartal ac yn darparu'r un cyfle i hyrwyddo gwerth llwybrau dysgu ar sail gwaith galwedigaethol yn hanfodol.

Hyd yma, mae profiad o ddarpariaeth prentisiaethau gradd yng Nghymru wedi bod mewn perthynas â chynlluniau peilot ar raddfa fechan, sydd wedi denu llawer o ddyraniadau cyllid i'w cefnogi. Bydd gweithredu'r model hwn ar raddfa fawr, heb ystyried y gofynion adnoddau, yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gweithlu ac yn gwaethygu'r heriau y mae'r sector addysg a hyfforddiant yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Heb lefelau cyllid a chymorth priodol, ni fyddai'r model yn gynaliadwy a bydd yn andwyol i'r gweithlu. Mae'r profiad o brentisiaethau yn Lloegr wedi amlygu'r anawsterau o ran gweithredu a chyflawniad, gan gynnwys cyllid annigonol i addysgwyr a darparwyr, niferoedd carfannau bach a rheoliadau beichus. Rhaid ystyried yr hyn sydd i'w ddysgu o'r profiad hwn yng Nghymru. Nododd yr ymatebwyr sawl gwaith bod angen model cyllid gwahanol cyn cyflwyno'r prentisiaethau gradd yng Nghymru. Dylid ystyried yr enghraifft o Therapiau lefel 4, sydd newydd ei weithredu, fel model cyllid amgen i brentisiaethau. Nodwyd y byddai modelau amgen o bosibl yn cynnig rhagor o gyfleoedd i hyfforddi a chadw staff yn lleol mewn byrddau iechyd gwledig, yn enwedig lle bo swyddi anodd i'w llenwi. Gallai'r llwybrau prentisiaethau gradd gefnogi datblygiad a thyfu talent lleol.

Cododd Gofal Sylfaenol fater ynghylch cyflogadwyedd a cheisiadau oedd yn golygu y byddai dysgwyr yn dod yn weithwyr y bwrdd iechyd, a ddim yn aros ym maes Gofal Sylfaenol. Byddai rhannu'r cymorth ariannol yn cefnogi Gofal Sylfaenol i ddatblygu eu nyrsys eu hunain, yn enwedig gan ddefnyddio lleoedd rhan amser. Mae'r dull rhan amser hwn wedi'i nodi fel un hynod llwyddiannus.

Mae cyflogwyr eisiau cadw unigolion sy'n meddu ar sgiliau ymarferol, profiad a sgiliau uwch wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r unigolion hyn fel arfer yn ffyddlon, yn byw yn lleol ac yn ddelfrydol yn eu swyddi presennol. Mae ganddynt yr awydd a'r ymrwymiad, ond nid y cyfle i fwrw ymlaen. Roedd yr ymatebion yn awgrymu y byddai cyflogwyr a sefydliadau addysg yn croesawu modelau 'datblygu o'r tu fewn' a prentisiaethau. Does dim angen i'r modelau hyn fod yn gymhleth. Roedd yr ymatebion yn nodi'r tebygrwydd yn y ddarpariaeth addysg i gael mynediad i nyrsio, ond nid yw'r rhain yn cael eu galw yn fodel prentisiaeth. Gall cysylltu'r teitl 'prentisiaeth' gyda phobl ifanc neu rai sy'n gadael yr ysgol effeithio ar nifer y ceisiadau gan gynulleidfa ehangach a mwy profiadol.

## Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad

Derbyniwyd 8 o ymatebion Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad (WF&OD) drwy'r arolwg ar-lein gyda 100% o'r rhain yn gweithio i wasanaethau neu sefydliadau GIG Cymru. Hefyd, nodwyd sylwadau'r rhai oedd yn bresennol yn yr 8 o weithdai ar-lein.

- Roedd 100% o'r ymatebwyr yn deall yr ystod bresennol addysg oedd ar gael ar lefel 4 ac uwch yng Nghymru.
- Roedd 100% yn deall modelau presennol darpariaeth addysg llawn amser a rhan amser.
- Roedd 63% o'r ymatebwyr yn deall y gwahaniaeth rhwng prentisiaethau yng Nghymru a Lloegr.

Yn ogystal â'r llwybrau addysg presennol yng Nghymru, roedd 88% yn rhagweld y byddai prentisiaethau gradd yn fuddiol o ran cadw staff, ac yn adnodd defnyddiol i hwyluso'r broses o uwchsgilio neu newid swyddi gweithwyr. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y byddai rhai sydd eisoes mewn gwaith yn elwa mwy o lwybrau dysgu rhan amser.

Gallai 81% o'r ymatebwyr weld sut byddai'r prentisiaethau gradd o fudd i amrywiaeth staff. Roedd rhai sylwadau'n nodi nad yw rhai darpar-weithwyr y GIG yn gallu ymgymryd â chymwysterau addysg uwch drwy lwybrau traddodiadol. Felly, nid yw canran o'r boblogaeth yn gallu ateb gofynion y gweithlu. Roedd 100% o'r farn y byddai prentisiaethau gradd yn adnodd defnyddiol er mwyn mynd i'r afael â bylchau sgiliau. Roedd 75% yn cytuno y dylid disgwyl i raglenni prentisiaethau gradd gael eu cyflwyno ar y cyd.

Byddai 100% o'r ymatebwyr yn gwerthfawrogi prentisiaethau gradd yn yr un modd â gradd arferol. Nododd ymatebwyr gyda phrofiad o brentisiaethau gradd gofal iechyd yn Lloegr bod y dysgwyr a'r prentisiaid yn teimlo wedi'u cynnwys mwy wrth ymgymryd ag ymarfer dysgu ar sail gwaith. Hoffai 88% weld prentisiaethau gradd ar gael ledled GIG Cymru.

Nododd 86% o'r ymatebwyr nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn addas i gefnogi anghenion datblygu'r gweithlu. Dyma rai rhesymau am hyn: diffyg darparwyr graddau arbenigol (e.e. gradd parafeddygol)/argaeledd prin llwybrau proffesiynol (Gwasanaeth Cyfreithiol a Risg, Archwilio a Sicrwydd a Gwasanaethau Ystadau Arbenigol), cyfyngiadau o ran nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyrsiau hyfforddiant, diffyg hyblygrwydd o ran mynediad i addysg lefel broffesiynol/wedi cofrestru, a diffyg cyllid prentisiaeth.

Nododd 50% o'r ymatebwyr y byddai'r sefydliad yn gallu bod yn ddigon hyblyg i neilltuo amser er mwyn bodloni patrymau astudio prentisiaeth gradd. Nodwyd pryder ei bod hi'n anodd rhyddhau staff mewn sefyllfaoedd dysgu ar sail gwaith. Nododd ymatebwyr gyda phrofiad yn Lloegr mai rhannu swyddi ar gyfer prentisiaethau yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau'r dychweliad gorau ar fuddsoddiad. Nodwyd y gall 80% amser prentis fod yn ddud, a'i bod hi'n bwysig manteisio i'r eithaf ar yr amser mae'r HCSW yn gwneud y gwaith. Mae 87% yn cefnogi model prentisiaeth gradd oedd yn gofyn am fuddsoddiad rhannol ychwanegol gan sefydliad cyflogi. Roedd 63% yn cefnogi model prentisiaeth gradd oedd yn gofyn am fuddsoddiad rhannol ychwanegol gan y dysgwr. Nid oedd 75% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth gyflogi prentis gydag 88% yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth ryddhau ar leoliad ac absenoldeb astudio.

Cadarnhaodd 100% o'r ymatebwyr WF&OD bod prentisiaethau ar waith i ddatblygu staff. Dyma enghreifftiau: Iechyd a Gofal Cymdeithasol (FR05110), Gweinyddu Busnes, Digidol, AD, Gwybodeg Iechyd (FR04183), Cymorth Gofal Iechyd Clinigol (FR05001). Roedd prentisiaeth i swyddogion ateb ffonau yn cael ei ystyried hefyd. Nid yw rhai fframweithiau'n cael eu defnyddio gan nad ydynt ar gael, neu maent yn addas i ddatblygu'r gweithlu, neu mae'n anodd dod i gytundeb gyda darparwyr addysg. Roedd ymatebwyr o WF&OD o'r farn y gallai prentisiaethau AHP, HCS, Nyrsio a Bydwreigiaeth, Digidol, Y Gyfraith, Peirianeg, Archwilio, Syrfëo Siartredig, Rheoli Adnoddau Dynol, gweithwyr proffesiynol ac arweinwyr fod yn feysydd a allai elwa ar gyflwyno prentisiaethau gradd yn GIG Cymru.

Cadarnhaodd 25% o'r ymatebwyr y byddai gan eu sefydliad ddull i lenwi swyddi'r staff fyddai ynghlwm wrth addysgu ac asesu prentisiaethau gradd. Awgrymodd 75% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliad yn fodlon ac yn gallu hyfforddi staff i ymgymryd â rolau addysgu ac asesu ychwanegol. Fodd bynnag, gall uwchsgilio gymryd amser a bod yn ddrud. Nododd rhai ymatebwyr nad oeddent yn gallu cyflawni'r hyfforddiant hwn oherwydd capasiti, costau ac amser. Cadarnhaodd 50% o'r ymatebwyr y gallai eu sefydliad neilltuo amser i staff ymgymryd â'r disgwyliadau addysgu ac asesu ychwanegol ynghlwm wrth gefnogi prentis gradd. Roedd 75% yn anymwybodol o'r amser ychwanegol a fyddai ei angen ar staff i gefnogi prentis gradd yn llawn. Derbyniwyd llawer o gwestiynau gweithredol oedd y tu allan i gwmpas yr ymgynghoriad, ond a fyddai'n cael eu hystyried yn ystod unrhyw gam datblygu peilot. Roedd 63% o'r farn y gallai eu sefydliadau fodloni gofynion lles parhaus pob aelod staff.

Roedd 100% o'r ymatebwyr yn ymwybodol bod angen i brentisiaid gradd ac fel arall gael eu cyflogi gyda'r manteision llawn am o leiaf 16 awr yr wythnos. Byddai 50% yr ymatebwyr yn disgwyl i brentisiaeth gradd bara o leiaf yr un cyfnod amser i gyflawni o gymharu â graddau presennol.

Roedd 88% yn ymwybodol o sut mae graddau gofal iechyd yn cael eu hariannu yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda 75% yn ymwybodol o sut mae cael gafael ar fynediad i gyllid prentisiaeth yng Nghymru. Cadarnhaodd 38% o'r ymatebwyr y byddai eu sefydliadau yn gallu cynnig cyflogaeth cyn-cofrestru mewn swyddi a fyddai'n caniatáu i brentisiaethau gradd gael eu cyflawni. Roedd dros 63% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o'r costau a allai fod ynghlwm wrth gyflwyno prentisiaethau gradd. Roedd 75% yn ymwybodol o'r costau o lenwi swyddi'r prentisiaid a'r un canran yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth fuddsoddi i hyfforddi staff i gefnogi cyflawniad ac asesiad. Roedd 87% yn ymwybodol o'r costau ynghlwm wrth neilltuo amser staff i fentora, asesu ac addysgu.

Mynegwyd pryder ynghylch pa mor anodd fydd hi i fyrddau iechyd ac unigolion ddod o hyd i gyllid ychwanegol yn yr hinsawdd ariannol presennol.



## Sectorau eraill

Yn ystod yr ymgynghoriad, cafwyd cyfraniadau gan sectorau eraill gan gynnwys Gofal Cymdeithasol a Gofal Sylfaenol. Does dim ystadegau ar gael ar gyfer y sectorau hyn, ond mae eu barn wedi'i chydabod a'i chynnwys. Derbyniwyd sylwadau ac adborth dros e-bost ac mewn gweithdai.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn cefnogi'n llawn prentisiaethau gradd, a phrentisiaethau'n gyffredinol fel dull o ehangu mynediad a chreu cyfle i ystod ehangach o ddysgwyr ddechrau ar yrfa ym maes gofal iechyd.

Mewn ymateb i'r cwestiwn ar brentisiaethau gradd yn cael eu hariannu naill ai gan y cyflogwr neu'r dysgwr, yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni credwyd y gallai hyn gael effaith andwyol ar nifer y dysgwyr a'r cyflogwyr fyddai'n cymryd rhan, gan ddylanwadu ar effeithiolrwydd prentisiaethau gradd.

Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod bod cyllid Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o b ryd i dalu Sefydliadau Addysg Uwch (HElau) a bwrsariaethau, yn gronfa â chyfyngiadau sy'n debygol o gael ei ail-ddosbarthu pe bai prentisiaethau gradd yn cael eu cyflwyno. Hefyd, nodwyd pryder y byddai disgwyl cyflogau uwch unwaith i'r prentis ddechrau ar hyfforddiant, heb gydnabod y buddsoddiad iddyn nhw.

Soniodd contractwyr annibynnol am bris prentisiaethau i'r cyflogwr. Byddai penodi prentis yn cynrychioli cyfran helaeth o'r bil cyflogau hyd yn oed i contractwyr annibynnol mwy. Ro'n nhw hefyd yn cydnabod problemau o ran cadw'r cyflogai wedi iddo/iddi gyflawni'r cymhwyster, am gyfnod digon hir i gael gwneud yn iawn am y buddsoddiad i'w hyfforddiant. Mae'n bosibl ceisio ymrwymiad ar ôl iddynt gymhwyso, ond gallai hyn waethygu problemau recriwtio. Roedd pryderon cyflogaeth eraill yn cynnwys bylchau i sgiliau'r prentisiaid gan na fyddai cyflogwyr llai yn gallu cynnig ystod o gyfleoedd, sy'n cyfyngu ar ddatblygiad ac arloesedd o bosibl.

Byddai llenwi swyddi yn her mewn lleoliadau gofal sylfaenol a lleoliadau annibynnol, gan nad oes yr un mynediad i staff asiantaeth ac wrth gefn o gymharu â gofal eilradd. Gall fod yn her hefyd i roi'r prentis ar y rota mewn gofal sylfaenol ar yr un pryd ag aelod staff cymwys i hwyluso hyfforddiant a chymorth.

Byddai angen cydweithio i sicrhau bod yr HElau a'r darparwyr hyfforddiant eraill yn bodloni anghenion y cyflogwyr tra'n sicrhau bod gofynion cyrff proffesiynol/rheoliadol hefyd yn rhan o ddatblygiad y cwrs.

O safbwynt nyrsio cymunedol, credwyd bod yr angen i deithio i nifer fechan o HElau yn Ne Cymru yn cynnig cymwysterau nyrsio iechyd meddwl yn arwain at ddiffyg staff cymwys yn y gymuned, oherwydd diffyg hygyrchedd a chyfraddau cadw staff isel. Mae'n bosibl y bydd rhai meysydd nyrsio yn elwa mwy ar brentisiaethau, megis anabledau dysgu ac iechyd meddwl, oherwydd nid yw'r arbenigedd hyn yn weledol iawn, ac nid ydynt yn cael eu hystyried mor ddeniadol.

## Casgliad

Ar y cyfan, roedd cymorth a theimladau positif ynghylch archwilio'r cyfle i gyflwyno prentisiaethau gradd gofal iechyd i wneud y gweithlu gofal iechyd yn fwy amrywiol ac yn well yng Nghymru, gyda model (*prentisiaeth*) o bosib yn arwain at yr un buddion yng Nghymru ag yr hyn a welwyd yn Lloegr o ran mynd i'r afael â diffyg staff a llywio datblygu'r gweithlu.

Mae'r potensial o'r Comisiwn Addysg ac Ymchwil Trydyddol (CTER) newydd yn integreiddio rheoleiddio, cyllid a llywodraethu ar gyfer addysg, hyfforddiant ac ymchwil ôl-16 wedi'i gydnabod, a dylid ei gefnogi. Rhaid cydlynu'r cyfathrebu yn hyn o beth i sicrhau bod prentisiaethau wedi'u blaenoriaethu yn y strategaeth, cyn iddo gael ei lansio'n ffurfiol fis Ebrill 2024.

Ar y cyfan, croesewir prentisiaethau fel llwybr addysg a hyfforddiant ategol at y gweithlu gofal iechyd yn hytrach nag opsiwn amgen i ddulliau presennol. Mae angen llwybrau amrywiol i helpu i ddatrys yr heriau y mae'r gweithlu gofal iechyd yn parhau i'w hwynebu. Byddai angen ymgorffori dull o weithio partneriaeth rhwng darparwyr addysg a chyflogwyr. Mae'n hanfodol bod unrhyw fentrau newydd o ran prentisiaethau gofal iechyd yn cael eu cyflwyno'n ofalus, gyda chryn ystyriaeth am eu heffaith bosibl ar raglenni a modelau cyllid sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru.

Yn yr ymatebion, nodwyd pa mor bwysig yw cydnabod arwyddocâd ehangu mynediad i gyfleoedd addysg a hyfforddiant i unigolion sy'n dyheu i gael gyrfa ym maes gofal iechyd, yn enwedig yn ystod y cyfnod sydd ohoni yn y sector.

Fodd bynnag, bydd angen adnoddau sylweddol, buddsoddiad cyllid ac ystyriaeth o'r seilwaith cyn gweithredu unrhyw fodelau ar raddfa fawr. Rhaid i unrhyw ddull ddysgu gwersi o brofiadau cyflawni prentisiaethau presennol. Rhaid i ddulliau greu fframwaith hirdymor cynaliadwy, gwerthuso'r adnoddau a'r seilwaith sydd eu hangen yn y cynlluniau peilot llai sydd wedi'u rhoi ar waith yng Nghymru hyd yma. Byddai angen i unrhyw ddarpariaeth newydd fod â negeseuon clir a chywir ynghylch y cyllid, yr amserlenni recriwtio a'r rhwydweithiau darparwyr posibl.

Roedd tystiolaeth o'r tu allan i'r ymgynghoriad hwn yn awgrymu bod cynlluniau peilot prentisiaeth gradd cynnar yng Nghymru wedi dioddef oherwydd cyfathrebu aneglur a diffyg hyrwyddo ymysg pobl ynghlwm wrth gynllunio'r gweithlu a swyddogion ynghlwm wrth ymgyssylltu â darpar ymgeiswyr. Gydag unrhyw ddatblygiadau i'r dyfodol, byddai'n hanfodol sicrhau cyfathrebu clir â chyflogwyr a phrentisiaid i gadarnhau recriwtio bwriedig ac adnoddau cyflawni.

Byddai rhagor o ymchwil ac ymgynghoriad manwl i effaith bosibl prentisiaethau gradd mewn meysydd galwedigaethol amrywiol i'w groesawu. Rhaid sicrhau bod gwybodaeth ychwanegol ar gael i gyflogwyr ar sut gall prentisiaethau gefnogi'r gwaith o greu swyddi newydd, llenwi blychau sgiliau, a chael eu defnyddio i gefnogi strategaethau recriwtio sy'n mynd i'r afael ag anghenion y gweithlu.

Mae llawer o'r ymatebwyr eisoes yn ystyried llwybrau dysgu rhan amser yn llwybrau tebyg i brentisiaeth, gan fod byrddau iechyd yn cyflogi unigolion a chan fod dim angen gorgymhlethu dulliau. Mae modelau goruchwyliaeth yn bodoli a gellir efelychu'r model ar draws proffesiynau yn unol â disgwyliadau'r Rheoleiddiwr. Rhaid i unrhyw ddatblygiadau wahaniaethu'n glir rhwng

prentisiaeth a chael cymorth gan gyflogwr i gyflawni gradd rhan amser.

Croesewir dulliau sy'n cefnogi llwybrau lleol, cadw staff a llwybrau cynnydd o ran darpariaeth gwasanaeth. Ar hyn o bryd, mae'n bosib bod 5,000 o unigolion (sydd â phrofiad mewn proffesiynau gofalu) o fewn y system brentisiaethau lefel 2-4 a allai groesawu llwybr cynnydd ennill wrth dysgu ar sail rhan amser.

## Diolchiadau

Hoffai AaGIC ddiolch i bob aelod staff gofal iechyd, addysgwyr a gweithwyr proffesiynol eraill wnaeth roi o'u hamser i lenwi'r arolwg, ymuno a chyfrannu at y gweithdai ar-lein, rhannu gwybodaeth a chydysnio i gael eu cyfweld.

Hoffai AaGIC gydnabod a diolch i'r cyrff proffesiynol canlynol a gyflwynodd ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad:

- Coleg Brenhinol Podiatreg (RCPOD)
- Coleg Brenhinol Therapi Iaith a Lleferydd Cymru (RCSLT)
- Coleg Brenhinol y Bydwraedd (RCM)
- Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT)
- Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)
- Cyngor Deoniaid Iechyd Cymru
- Cymdeithas Dieteteg Prydain (BDS)
- Cymdeithas Ffarmacolegol Brenhinol Cymru (RPS)
- Fferylliaeth Cymunedol Cymru (CPW)
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Partneriaid Cynghair Strategol Addysg Bellach
- Prifysgol De Cymru
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru (OU)

## Talfyriadau

AHP – Proffesiynau Iechyd Cysylltiol

CTER – Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

E&T – Addysg a Hyfforddiant

HCPC – Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal

HCS – Gwyddorau Gofal Iechyd

HCSW - Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd

HEI - Sefydliad Addysg Uwch

HEIW - Addysg a Gwellu Iechyd Cymru

ILM – Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheoli

NMC – Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth





ODP – Ymarferydd Adran Llawfeddygaeth

OT – Therapi Galwedigaethol


PTP – Rhaglen Hyfforddiant Ymarferwyr

WBL – Dysgu ar sail Gwaith


# Atodiad 1




**Are you aware of the amount of additional time that substantive staff would need to enable full support of a degree apprentice?**




**Could your organisation meet the wellbeing requirements of all staff?**




**Would your organisation have mechanisms to support backfill of the substantive staff involved in the education and assessment of a degree apprentice?**




**Would your organisation be able to offer pre-registration employment within job roles that enables achievement of a degree apprenticeship?**




**Are you aware that degree and non-degree apprentices need to be employed, with full benefits, for a minimum of 16 hours per week?**




**Do you know how healthcare degrees are currently funded in Wales?**




**Do you know how apprenticeship funding is accessed in Wales?**




**Would you be supportive of a degree apprenticeship model that required additional part funding investment from the employing organisation?**




**Would you be supportive of a degree apprenticeship model that required additional part funding investment from the learners?**




**Are you aware of the costs of investment for training staff to support delivery and assessment?**



**Are you aware of the costs of backfill?**




**Are you aware of the costs that could be associated with introducing degree apprenticeships within your healthboard?**







**Are you aware of the costs of enabling staff time for mentoring, assessing and teaching?**




**Are you aware of the costs of employing an apprentice?**




**Are you aware of the costs of placement release and syudy leave?**




**How would you expect the length of time for the completion of a degree apprenticeship to compare with an existing degree?**




*Would your organisation value a degree apprenticeship as equivalent to an existing degree?*



*Should collaborative delivery of degree apprenticeship programmes be expected?*



*Do you understand the various models of delivery for part-time?*



*Do you understand the various models of delivery for full-time?*

